Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

DR. PARRY

OR

BALA.

28915 f
[illegible]

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor

28915 f. 64

1/6

(·165)

# DR. PARRY, O'R BALA.

CYFANSODDIADAU BUDDUGOL

DOSBARTH YSGOLION PENLLYN,

1874.

GAN

WILLIAM THOMAS (ISLWYN),
EVAN DAVIES, LLANGYNOG,
A
HUGH JONES, LLANRHAIADR MOCHNANT.

DINBYCH:
CYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLXXV.

## RHAGYMADRODD.

GAN fod y diweddar Barchedig Dr. PARRY, o'r Bala, â'i glod yn hysbys drwy ein gwlad oll, ni byddai ond ofer ysgrifenu dim am dano yn y rhagymadrodd hwn, yn mhellach na chyfleu ger bron rai ffeithiau a ddangosant i'r cyhoedd y rheswm dros i bwyllgor Undeb Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfinaidd yn Mhenllyn, gael eu tueddu i roddi gwobr o *ddeg punt* am farwnad goffadwriaethol iddo.

Y mae dyled Cymru oll yn wir fawr i Dr. PARRY, a phery felly tra y parheir i ddarllen yr iaith Gymraeg. Ond y mae dyled y Methodistiaid yn fwy iddo nag un dosbarth arall o'n cenedl, canys bu yn cydlafurio â Dr. EDWARDS yn eu Hathrofa yn y Gogledd am ddeng mlynedd ar hugain; sef, o'r flwyddyn 1843 hyd 1873, pryd yr ymddiswyddodd. Yn y cyfnod hwn, bu yn offeryn amlwg yn llaw DUW i ddiwyllio meddyliau ac ysbrydoedd agos yr oll o'r tô presennol o'n pregethwyr yn y Gogledd, a rhai yn y De. Ond o bob dosbarth o Fethodistiaid, *Dosbarth Penllyn* sydd dan y ddyled drymaf iddo.

Y mae Penllyn, nid yn unig yn mwynhau ffrwyth aeddfed ei ysgrifell, ac yn gwrandaw

gweinidogion a fuont dan ei ddysgeidiaeth bur; ond hefyd wedi mwynhau mwy o'i weinidogaeth, ei gyfarwyddiadau, a'i gymdeithas *bersonol ef ei hun*, nag un rhan arall o Gymru. Bu yn gofalu am Ysgolion Sabbothol Dosbarth Penllyn gyda ffyddlondeb a llwyddiant na welwyd ei gyffelyb er dyddiau Mr. CHARLES—o'r flwyddyn 1843 hyd nes ei attal i'w dilyn gan lesgedd tua diwedd ei oes. Hefyd, bu yn gofalu yn gyffelyb am Ysgolion Sabbothol Dosbeirth Edeyrnion a Cherygg-y-druidion am rai blynyddoedd, pryd y teimlai ei hun dan rwymau i'w rhoddi i fyny o herwydd gormod llafur.

Y ffeithiau hyn, a'u cyffelyb, a effeithiasant i dueddu meddyliau deiliaid Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid yn Mhenllyn i gasglu a chynnyg y wobr a nodwyd am Farwnad o barch i'w goffadwriaeth; yr hyn ydoedd yn brif destyn eu cyfarfod cystadleuol blynyddol, a gynnaliwyd yn y Bala yn mis Rhagfyr y flwyddyn ddiweddaf.

Y beirniad ar y testyn hwn ydoedd Dr. EDWARDS; a buasai yn dda genym gael ei feirniadaeth ar y cyfansoddiadau wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hun. Ond gan nad ydyw wedi ei hysgrifenu o gwbl, eithr yn unig ei thraddodi ar y pryd fel yr ydoedd yn ei feddwl; a chan fod rhwystr ar ffordd y gŵr parchedig i allu cyflawni y gorchwyl hwnw yn awr, nid oes genym ond gosod ei feirniadaeth ger bron mor gywir ag y gallasem ei hysgrifenu wrth ei wrandaw yn ei llefaru noson y cyfarfod llenyddol yn y Bala.

Wedi dadgan ei deimladau gyda golwg ar bwysigrwydd y gorchwyl o feirniadu y cyfansoddiadau, dywedai:—

"Daeth wyth o gyfansoddiadau i law, ac y maent i gyd yn rhai da. Nid oes un o honynt y byddai yn rhaid i'w hawdwr gywilyddio ei weled mewn argraph. O'r wyth, yr oeddwn yn teimlo fod tri yn y dosbarth cyntaf, a'r lleill yn yr ail ddosbarth. Y mae y tri sydd yn y dosbarth blaenaf yn hynod o dda; sef, *Awenydd Trist*, *Morgan Rhys*, ac *Onesimus*, ac y maent yn bur agos yn gyfartal. Pe buasai genym dair gwobr, buaswn yn eu dyfarnu i'r tri hyn. Ond wedi eu darllen drwodd lawer gwaith, a meddwl yn ddifrifol uwch eu pen, yr oeddwn yn teimlo y glorian yn troi ychydig at ryw un o honynt. Ac i wasgar pob ammheuaeth o'm meddwl, mi elwais ŵr ataf cyfarwydd â beirniadu barddoniaeth, a gofynais ei farn am danynt, ac yr ydoedd yntau o'r un farn yn eu cylch a minnau. A'm barn ydyw mai *Awenydd Trist* yw y goreu. Y mae hwn yn fwy coeth, ac yn arddangos ar y cyfan farddoniaeth o rywogaeth uwch. Y mae y ddau ereill yn wir dda, ac mewn rhai rhanau o'u gwaith yn gyfartal i'r cyntaf; ond y maent yn disgyn cryn dipyn mewn rhanau ereill. Dengys y cyntaf fwy o wastadrwydd, yn gystal a choethder, na'r ddau ereill. Ond er hyny, tueddir fy meddwl i gredu y bydd yr eiddo *Morgan Rhys* ac *Onesimus* yn fwy darllenadwy gan ddosbarth lliosog o'n cenedl, yn gymmaint a'u bod yn rhagori ar y cyntaf

yn mywiogrwydd a chywirdeb eu darluniadau o Dr. PARRY, yn gystal ag mewn odli."

Dyna swm y feirniadaeth. Mewn canlyniad i'r ganmoliaeth uchel a roddai y beirniad i'r ddwy Farwnad ereill yn y dosbarth cyntaf, penderfynodd y pwyllgor eu prynu, er mwyn eu cyhoeddi gyda'u gilydd yn un llyfr, i fod yn deyrnged o barch i goffadwriaeth yr enwog a'r anwyl Dr. PARRY, o'r Bala! Ac yn awr, wele eu hamcan yn hyn wedi ei gwblhau.

Ni fwriedir yn y gradd lleiaf i'r llinellau hyn, nac chwaith i'r llyfr hwn, wasanaethu fel un math o Gofiant i Dr. PARRY. Bwriedir i'r ychydig nodiadau hyn wasanaethu yn unig fel eglurhâd o'r amgylchiadau dan ba rai y dygwyd y llyfr oddi amgylch, gan hyderu y bydd yr arwydd hwn o barch a ddangosir i goffadwriaeth fendigedig Dr. PARRY gan Ysgolion Sabbothol Penllyn yn foddion i symbylu ei deulu i osod rhyw ŵr galluog ar waith yn ddioed i ysgrifenu Cofiant teilwng o hono. Byddai darllen hanes ei fywyd yn un o'r moddion effeithiolaf y gellir meddwl am danynt i ddeffroi meddyliau ieuengctyd Cymru i ymgyrhaedd at brif amcan bywyd gyda mwy o egni a difrifwch. Gan fod cyflawnder o ddefnyddiau wrth law, disgwyliwn weled Cofiant cyflawn iddo yn nwylaw ein cydgenedl ar fyrder.

BALA, *Mai 29ain*, 1875.

# MARWNAD

GAN

Y PARCH. WILLIAM THOMAS

*(Islwyn).*

---

## Y BOREU.

Beth yw'r dinasoedd mwya'u bri
At fangre'th enedigaeth di,
Y lonydd Bersham?—enw sy
Yn anwyl gan angylion fry,
Rhai yno geid yn gwylio'th gryd
Dan nawdd eu claer adenydd clyd!

Pa beth yw hanes boreu oes
Y gwron rodd i filoedd loes,
Gan lanw byd â sain ei fri,
At hanes foreu Parry gu!

Pan dorodd gwawr ei fywyd, llawenhau
Wnaeth Angel Methodistiaeth yn y nef,
Wrth glywed tyrfa'n dod—sef, tyrfa gref
O weinidogion Seion yn nesau
Yn arfog at eu gwaith, o'i arfdy ef.

Dangosodd Iesu i ryw dyrfa lon
O Dadau Methodistaidd ger ei fron
Olygfa newydd ar ddyfodol pur
I dd'od o addysg Parry cyn bo hir:—
Dyfodol i ymagor yn ein mysg,
Rhyw ddwyfol ddydd o sancteiddiedig ddysg
Yn tori, draw, ar fryniau Cymru lân—
A bu am ennyd seibiad yn eu cân!
Pennodwyd i'r bachgenyn yn ei gryd
Ei geidwad:—angel ffyddlawn. Ar bob pryd
Fe'i gwyliai, fel pe'n un o lawer mil,
Wrth fyn'd i'r ysgol ddyddiol, a'r un Sul.
O'i febyd fe'i bendithiwyd gan y Nef,
Nid oedd dewiniaeth yn ei erbyn ef;
A bu ei foreu lwybr, fel mae'n wiw
I un sydd i ddisgleirio yn ngwaith ei Dduw,
Yn wŷn o'r cryd i fyny, hyd nes daeth
I gyflawn rym i gydio yn ei waith.

Ei lwydd a chwyddodd, do, yn afon fawr,
Fel gwelir wrth ei gwely gwâg yn awr:
Ac os yn fechan yn ei ffynnon wan
Fel llygad gwlithyn newydd agor bàn
Dan ael blodeuyn, 'roedd mor loew a chlir
A llygad gwlithyn hefyd, ac mor bur.

Mor deg, mor addas ydyw mebyd pur
Yn hanes dynion sydd i fod cyn hir
Yn gedyrn dros eu Hior: mae'n effaith gwiw
A phrawf o ragarfaethol gynghor Duw.

Dadblygiad cysson o'i foreuddydd ef
Fu'i ganol ddydd, a'i hwyr, yn ngwaith y Nef.

Nis etifeddodd gyfoeth yn ei gryd,
Ond etifeddodd fwy nag all y byd
Ei roi i neb—rhieni â'u holl fryd
Ar wasanaethu Duw, a'i feithrin ef
Yn addysg ac athrawiaeth lân y nef.

Yn mhen ei ffordd fe ga'dd yr iawn gyfeiriad—
Yr addysg sydd yn rhoi o dan gymmeriad
Sylfaenwaith dwyfol, nas gall holl ystormydd
Dyfodol oes ei ysgwyd yn dragywydd.
Bu tad a mam grefyddol yn cyfeirio
Ffrwd bywyd pan ddechreuai 'n wan lifeirio;
Ac wedi myn'd o'r ysgogyddion ymaith
Parhäai yr ysgogiad yn ei effaith.

Bu iddo hefyd ar Sabbothau 'r borau
Un[1] addas iawn i *ddechreu* agor dorau
Ei fyd meddyliol:—gŵr â'i brif feddylfryd
A'i fyfyr llawn, ar Dduw a thragwyddolfyd.
Ni ellir cofio HUGHES heb gofio hefyd
Am ryw awyrgylch megys o nefolfyd,
Am ras i goethi deall, gwella calon,
Am rywrai 'n pasio—tebyg i angylion!
Bu'r Awen hon *un* waith yn ei gyfeillach,
A rhifid ef yn sant o'r puraf bellach:

[1] Gwel *Y Drysorfa* am Mawrth, 1874, tudal. 109.

Fel teithiwr yn yr orsaf 'roedd e'n aros
Am hwyr gerbydres Iesu i ymddangos—
I minnau 'r oedd y byd yn mhell,
I minnau'r nef yn agos!

Ceid, rywfodd, grefyddolrwydd yn ei wyneb,
Ac yn ei iaith drysorau o ddoethineb—
A hono yn un nefol. Anhawdd ydoedd
I fachgen tirf anghofio y'mhen blynyddoedd
Ddylanwad pur ei ddysg a'i bresennoldeb—
Un oedd yn byw ar gyfer tragwyddoldeb!

Mae'r disglaer foreu yn ymledu weithion,
A cheir ein harwr yn mysg myrdd Manceinion:
Mae Parry yn eu mysg—ond nid o honynt;
Fel pe na bai 'n eu gwel'd, ymlwybra drwyddynt.
Efryda y Ladinaeg ar yr heol,
Y Groeg yn yr ystrŷd—rhyw newydd reol
Feistrola ef bob dydd. Gymmeriad addien!
Mae bob yn ail yn gweithio ac yn darllen.

Fe g'lymai am ei fys ryw ddalen Ladin
I'w darllen ar y ffordd:—a dalen wed'yn,
Nes bwyta'r llyfr oll. Yn ddiwyd ddiball
Ai rhagddo i feistroli llyfr arall;
Un arall eilwaith—ac un arall wed'yn.
Fel hyn, o un i un fe fagai edyn
Meddyliol, gan ymgodi'n uwch i wybrau
Gwybodaeth deg a'i hannherfynol lwybrau.
Darllenodd lawer wrth y goleu goreu

A fedd y byd—goleuni'r wawrddydd foreu,
Sy'n dyblu yni deall yr efrydydd:—
Gwell awr o'r Wawr nag oriau maith o'r hwyr-
ddydd.

---

## Y DYDD.

Y MAWR yn aml gynnwysir yn y bychan,
Dyrnaid o fês gynnwysa fforest lydan:
Ac yntau trwy yr Ysgol Sul, a'i swyddi,
Ddangosai fesen yr athrawol deithi—
Y fesen dyfodd wed'yn yn frenhinbren,
Gan guddio'r Bala, y Fethodistaidd Athen,
A llawer o feddyliol dirf blanigion
Yn tyfu'n gryf o dan ei chysgod tirion,
Nes d'od eu hunain yn ysbrydol dderi,
Bob un yn nawdd i braidd ysbrydol dani.
Mor felus ydyw olrhain cwrs ei fywyd,
Y mae fel llyfr cyfoethog i'm meddylfryd,
A phob rhyw ddalen newydd yn rhagori,
Ac yn dyfnhau mewn cyfoeth a goleuni,
Nes yw y ddalen *olaf* yn troi drosodd
I Olau'r nef—y "Diwedd" mawr a'i seliodd!

O Bersham i Manceinion—dyna linell
Heb ar ei gloewder unrhyw niwlen dywell:

O'r Ysgol Sul, hyd risiau gloewon odiaeth,
I fyny i Areithfa'r Brynedigaeth,
Oedd gyfres o ysbrydol ddyrchafiadau
Uwch law brenhinol rwysg dan aur goronau.

O'r Bala, megys eryr cryf, esgynai
I fyny i'r Brifysgol—lle cyrhaeddai
Uchelion gloewon dysg, gan ymberffeithio
Yn mhob cyrhaeddiad freuddwydiasid ganddo,
Wrth wrandaw Dalton gynt, a Lardner enwog.
Ychydig a ddyfalai'r ddau dywysog
Meddyliol hyn, pan fyddent yn darlithio,
Fod llangc o'r fath ddyfodol disglaer yno!

O'r Alban yn ei ol i'r Bala lonydd,
Oh! mae e' gartre'n awr! a phawb yn ddedwydd
O roddi iddo gadair y ddysgeidiaeth.
Fe'i llanwodd hi—do, fel cyflawnydd Arfaeth
Bennodol gan y nefoedd. Do, fe'i llanwodd
Fel Solomon ei bwlpud, nes gorphenodd.

Mae gartre'n awr! 'Rwyt tithau, f' awen, weithian,
*Uwch ben dy bwngc*, fel llong 'r ol myned allan
O'r afon a'r cul fôr, yn gorfoleddu
*Uwch ben y Werydd lydan*, gan amledu
Ei rholfawr hwyliau fel cymmylau gwynion,
A throi y gallu ar yr holl olwynion
Hyd eitha'r ager cryf.
Nid oes golygfa
O fath yr hon geir im' yn agor yma—

Dyn mawr yn eistedd mwy i lawr *ar union*
*Ganolbwynt* ei feddylfryd a'i holl galon!
Mae'n gwel'd ei waith o'i flaen yn eglur-olau
Oddi yma hyd ei fedd, heb dòr na rhwystrau.

Os holir im' Pa beth yw *un* egwyddor
Ei hanes a'i arweiniad trwy'r holl dymmor
Hyd at y cyfnod 'nawr sydd yn ymagor?—
Pa beth oedd *un* meddylddrych Iôr Rhag-
luniaeth
O'i barthed ef—*un* amcan Dwyfol Arfaeth?
Attebir yn ddiofn—Llunio Athro,
Cyfodi dyn i godi dynion dano!

Fe fu yn dlawd yn ninas fawr Manceinion,
'Roedd eisieu hyny at wneyd Athraw union
I fechgyn tlodion Cymru:—*hwy*, fynycha',
Sy drwy helbulon fil yn dod i'r Bala.
Yr oedd llifeiriant boreu 'i amgylchiadau
Yn groes i gwrs ei fryd a'i dueddiadau,
'Roedd hyny yn gymmhwysder i gyd-deimlo
A'r sawl oedd i wynebu'r gwrthlif etto.

Mae hen long ryfel draw ar lanau'r Hafren,
Heb arni gadben, dwylaw, hwyl, na hwylbren;
Mae wedi ei throi yn llwyr o'r neilldu weithion
Gan y niweidiau ga'dd mewn brwydrau poethion;
Mae wedi ei throi yn ysgol i blant tlodion.
Môr garw bywyd a'i cymmhwysodd yntau—
Plentyn y dòn all ddysgu plant y tonau!

Bu'n unig yn mysg miloedd yn Manceinion
(Ond 'r oedd ei lyfrau yn gyfeillion ddigon,
Er nad yn aml eu rhif), a'i fyfyriadau
Y cyfnod hwn ar fil o lonydd oriau
Ar auaf-nosau wrth y ganwyll egwan,
Fu iddo yr hyn i Moses gynt fu Midian.
Daeth Moses o'i unigedd hirfaith allan,
Yn nerthol ŵr i ddwyn yr Hâd i Ganaan;
Cymmhwyswyd yntau heb yn wybod iddo,
I arwain arweinyddion Seion yno.
Preswylydd Mawr y Berth a ymddangosodd,
Do, iddo yntau—a'i dangnefedd gafodd.

Fe weithiai'n ffyddlawn gyda'i ddosbarthiadau,
Fel Noah gyda'r arch. Ei holl serchiadau
Ymblethent am ei waith. 'Roedd yn ei gader
Athrawol wrth ei gyflawn fodd bob amser.
Nid cadair athro o dymmher oer oedd hono,
Ond cader freichiau tad, a'i ddosbeirth cryno
Fel serchog blant o'i gylch ar nos o auaf,
Yn holi holion gan eu cyfaill mwynaf.

'Roedd dysgu ereill iddo yntau'n ddysg.
Cynnyddodd ei wybodaeth yn eu mysg,
Nes ennill cyrhaeddiadau uwch o hyd
I arwain ei ddysgyblion tra 'n y byd.
Fel garddwr yn ei ardd, efelly trodd
Ein harwr trwy ei ddosbeirth, wrth ei fodd:
Fe wyddai b'le i bur ysgythru'r gau,
Pa le i chwynu, b'le i ddyfrhau:—

A gwnai yr oll mewn cariad, megys un
Oedd yn ei elfen yn ei ardd ei hun.
Ni fu ei waith galedwaith iddo ef,
Ai trwyddo fel ä cwmmwl trwy y nef,
O flaen y falmaidd awel—fel yr ä,
Yr awel dros y blodeu yn yr ha'.
'Roedd iddo ef orphwysdra yn ei waith,
Rhyw fanau gorphwys ar bob cam o'r daith.

Mae pwlpud Cymru oll mewn du
Ar ol yr efengylydd cu,
A'i harddodd trwy ei oes:
Ei arddull ydoedd gynllun llawn
O weinidogaeth uchel iawn—
Mawr ganol bwynt ei ddysg a'i ddawn
Oedd CRIST a Iawn ei groes.

O dan eneiniad rhad y nef,
Fe godai'r dyrfa gydag ef
O ŵydd y byd yn mhell:
A phan orphenai'r Sabbath llon,
Clustfeiniai aml gredadyn, *bron*
Fel un a glywai'r olaf dòn,
Yn tori ar wlad sydd well!

Mae aml bererin erbyn hyn,
Yn mhell yn mlaen—mae Seion fryn
Yn amlwg iddo ef:
Mae'n cofio'n brawd fel "Cristion" gu,
Yn cofio'r "Efengylydd" fu

Yn dangos iddo'r gulffordd sy'
*Yn awr* ar ffin y nef.

Gallesid meddwl pan yn llanw 'i le
Yn mysg ei ddosbeirth gwiw, nad oedd efe
Yn unpeth ond Dysgawdwr. Pan yr äi
I'w bwlpud eilwaith, gell'sid meddwl mai
'R pregethwr oedd yn unig, gan mor llawn
Oedd rhiniau'r brynedigaeth drwy ei ddawn.
Addurnol arddull, heb yr ofer wych;
Y coeth a'r athronyddol, heb y sych:
Gallasai weithio allan feddwl mawr,
A'i ddangos gefn a gwyneb, nen a llawr,
Nes aem o'i ogylch:—safai erbyn hyn
Fel palas o oleuni ar ryw fryn,
Na fu yn gorphwys arno niwl erioed,
Na neb yn meiddio ammheu wrth ei droed.

Ysbrydol amaeth pur
Oedd ef, o ffyddlawn ryw:
Ac O! fel syllai dros y tir
Hauasai ef i Dduw,
I wel'd pa ffrwyth, pa gynnyrch oedd
O'i lafur cudd mewn llwyddiant c'oedd.

Fe ddyblodd ef ei hun,
Do, lawer, llawer gwaith,
Trwy fagu gweinidogion da,
Dorf, at y dwyfol waith;

Pan ddelo boreu cun
  Yr adgyfodiad mwy,
Fe gaiff ei wobr fawr ei hun,
  A rhan o'u gwobrau hwy.

Ni liosogodd nemawr sant
  Ei hunan fel efe,
Ni bu i nemawr athraw blant
  O'r nifer hyn i'r ne':
Ac O! ni fydd i nemawr un
Wobrwyau o'r fath ddwyfol rin.

Rhyw PAUL oedd PARRY gu:
  Ac am bob dysgybl gwiw,
Ei enw ef oedd TIMOTHY—
  Ei sanctaidd fab yn Nuw.
Edrychai ar ei ol fel tad,
Fel un yn gwylio dros ei hâd.

---

## YR HWYR.

AETH heibio 'r boreu o ymbarotoi,
Y mae cymmylau 'r hwyr yn ymgrynhoi
Uwch ben y dydd o weithio heb ei ail,
Rhaid gostwng tôn y gerdd wrth wel'd ei haul

Yn araf ostwng ei ddisgleirdeb clir
Tu arall i fynyddau'r tywyll dir.

Gan gariad at ei waith,
Fe deimlai braidd yn flin,
O herwydd fod ei daith
Yn hwy na'r gwaith ei hun—
Ychydig gamau byr yn hwy,
Gan rym ei glefyd ola' a'i glwy'.
Carasai i'w ddaearol daith
Ddybenu *gyda'i* nefol waith,
A gyru yn ei harnais llawn
I dŷ ei Dad yn hwyr brydnawn.

Bu athrist ganddo rwystro 'i rym
Cyn llwyr waghau ei hadlestr pur;
Bu'n dristedd, bron, orphwyso dim,
Er 'nawr yn ngolwg Canaan dir!

'Roedd gwrandaw ar dy sain,
O! fawr Iorddonen gref,
Am fisoedd hirion, braidd
Yn alar iddo ef.

Y sain bereiddia erioed
Oedd sŵn ei ddosbarth cu,
A char'sai fyn'd mewn cyflawn oed
O'u sŵn i sain—
I sain yr anthem fry!

Fe gyrhaeddasai llawer sant
O nifer ei ysbrydol blant,
  Er's tro, y ddinas gain:
O! 'r gorfoleddu'r ochr draw,
Pan gwrddai hwynt uwch loes a braw,
Pan deimlai aml gyfeillgar law
  Deimlasai ef o'r blaen!

Yn mysg y llu 'roedd yno rai
O'i ddosbeirth gynt, yn llawenhau
  O wel'd eu hathraw'n dod!
Fel yr arweiniodd PARRY hwy,
Arweinient hwythau PARRY mwy
I wel'd y wlad lle nad oes clwy',
  Na sain—ond anthem clod.

Arweinient ef, o fin y dŵr,
Trwy engyl fyrddiwn at y GWR
  Ddioddefodd farwol glwy';
A chlywyd yn yr anthem fawr
Rhyw lais na chlywsid hyd yn awr:—
'Roedd wedi dysgu ar y llawr
  Y gân na dderfydd mwy.

Yn mysg y saith ugeinmil llon
Brynasid ar y ddaear hon,
  Cymmerai 'n rhwydd ei le!
'Roedd wedi hen feistroli 'r gân,
'Roedd wedi dechreu 'i chanu o'r bla'n,

Pan gyda'r pererinion glân,
  Yn dringo tua'r ne'.

Daeth angel hardd â choron wen—
Ni fu ond ennyd ar ei ben,
  Fe roe y goron gain
Wrth droed gorseddfa IESU cu,
Gan dd'wedyd, 'Gormod yw i mi!
Rhowch hon i'r Bendigedig fu
  Yn gwisgo coron ddrain!'

Ar hyny rhoddai'r dyrfa i gyd
Eu holl goronau i lawr 'r un pryd,
  Gogoniaint gloewa'r nef:—
Drwy hyny mae yn uchder nen
"Goronau lawer ar ei ben,"
Yn ol yr anthem fawr—"Amen!
  Y moliant iddo ef!"

---

Hen fynwent gyssegredig LLAN-Y-CIL!
Ni feddi lwch, pe bae dy feirwon fil,
Mwy bendithiedig! Daear ddedwydd yw
Dy ddaear di am gynnwys perl mor wiw—
Mor werthfawr gan y Dwyfol Dad, a wnaeth
Ei brif ewyllys ar dy drysor caeth.

Boed Gwanwyn deublyg ar dy dyfion di!
Boed fyrdd dy flodeu, myrdd dy wlithion cu,
I wylo hwyr a boreu ar y bedd,
Lle gorphwys ei weddillion yn yr hedd,
Nas gellir aflonyddu arno mwy—
Lle ni ddaw gelyn byth i beri clwy'!

AWENYDD TRIST.

# MARWNAD,

GAN

Y PARCH. HUGH JONES, LLANRHAIADR,
CROESOSWALLT.

---

Tref y Bala! nid oes unman
  Yn nghadwynau'm serch mor dŷn;
Du yr edrych arnaf heddyw—
  Beth, attolwg, barodd hyn?
Marw Doctor Parry daflodd
  Gysgod angeu ar bob tu,
Ac mae pawb, yn hen ac ieuangc,
  Ar eu gwedd yn gwisgo du.

Heddyw mae Cyfarfod Misol
  Sir Feirionydd yn y fro,
Ar yr hwn am lawer blwyddyn
  Cwlwm cariad ydoedd o:
Gwâg ei le! Mor chwith y teimlir!
  Gwelir colled am y gŵr
Fedrai dywallt olew cariad
  I lonyddu'r tonog ddŵr.

Af am dro i'r cwrdd eglwysig
  Heno sy'n y Capel Mawr—

Gwelaf lu o hen gydnabod,
  Pererinion ar y llawr:—
Ond, pa le mae'r hen brofiadau?
  Angeu ar ddinystriol hynt
Dorodd ymaith y *Sugnedydd*
  Weithiai mor ragorol gynt.

Troaf etto i dŷ galar
  Heddyw sydd yn nghwr y dref—
Metha'r teulu ymdawelu
  Dan alluog law y Nef:
Oes, mae amledd o gysurwyr,
  Ond nis gallant weini hedd:—
P'le mae'r "genad o ladmerydd,
  Un o fil?" Mae yn ei fedd!

Tua'r hen Athrofa anwyl
  Trof fy wyneb ennyd fach;
Pur lawenydd i fy nghalon
  Gwel'd ei *phen* yn fyw ac iach;
Ond pa beth yw'r cyfnewidiad
  Trist a welir?—d'wedwch, ffrynd.
Ni raid atteb—hawdd yw gweled
  Fod ei *chalon* wedi myn'd!

Beth! ai ni chaiff Awen Cymru
  Ddiosg ei galarwisg ddu?
Ai ni roddir i ni hamdden
  Ond i feddwl am a fu?

Angeu sy'n dinystrio 'r seiliau
  Yn ein mysg yn brysur iawn,
Seion, deffro! gwel dy gyflwr!
  Nef drugarog, beth a wnawn!

Hybarch Gorph y Methodistiaid
  Dan ei glwyfau, dyma fe:—
HENRY REES, y fraich rymusaf—
  EDWARD MORGAN, lygad de—
P'le maent hwy? Ond angeu creulawn
  Rhoddaist glwyf i'r *fynwes* pan
Y tarewaist Dr. PARRY—
  Teimla'r Corph i gyd yn wan.

Wele'i 'stafell yn y Coleg—
  Wele'r gadair—wele'r bwrdd—
Wele ddosbarth o efrydwyr
  Fel arferol wedi cwrdd:
Plant amddifaid ydynt heddyw,
  Ocheneidiant dan eu clwy'—
"O! ein Tad—ein Tad—ein Hathraw!
  Ni chawn yma 'i addysg mwy."

Frodyr ieuaingc, gwn y medrwch
  Faddeu am dro i ddyeithr frawd,
Ac mai hawdd yr esgusodwch
  Ddagrau hen efrydydd tlawd:
A yw pobpeth wedi newid?
  Na: mae Duw yr un yn awr
A phan y gweddïem arno
  Gynt yn yr ystafell fawr.

*Cydweddïwn* :—"Arglwydd tirion!
  Ti a'n gweli ger dy fron
Yma wedi colli'n cyfaill
  Goreu ar y ddaear hon;
Anfon di 'r Dyddanydd nefol
  Yma i'n calonau trist,
Mewn tywyllwch dod oleuni
  Trwy adnabod Iesu Grist.

"O ysbrydiaeth Mr. PARRY
  Dyro i ni ddeuparth llawn,
Modd y'n gweler megys yntau'n
  Dduwiol a defnyddiol iawn;
Arglwydd, dyro nerth i weithio—
  Gweithio fel y gweithiodd ef,
Fel na chaffo 'i siomi ynom,
  Ond ein cwrdd yn nheyrnas nef.

"Cofia 'i deulu sydd mewn galar,
  Cofia 'u caredigrwydd gwir,
Yma i'th annheilwng weision
  Bellach er ys amser hir:
Tad amddifaid, Barnwr gweddwon,
  Ydwyt ti, a'th enw yn IAH;
Nertha hwy i gredu ynot,
  Ac i wel'd pob peth yn dda.

"Cynnhes iawn dymunwn ddiolch
  I ti am Athrofa rad,
Ac am estyn oes ddefnyddiol
  Ei sylfaenydd—Nefol Dad;

Hyd nes dyrna i lawr fynyddoedd
  Anwybodaeth—rhagfarn hyf,
Estyn etto'n hir ei ddyddiau,
  Ac arhoed ei fŵa 'n gryf."

Trof i weled hen breswylfan
  Doctor PARRY—yma gwell
Ydyw tewi—cyn ymadael
  Rhoddaf dro i'w fyfyr gell;
Ië, dyma 'i hen gyfeillion—
  STUART MILL, a HAMILTON;
Brysiaf ymaith, neu fe'm temtir
  I addoli pen ei ffon!

Araf gerddaf tua chladdfa
  Enwog anwyl Cil-y-llyn,
Sydd fel ogof Maes Macpelah
  Crefydd yr ardaloedd hyn;
Yno i goledd hen adgofion
  Tan gysgodion angeu trwch,
Ac i wylo dagrau heilltion
  Gyda'r miloedd uwch ei lwch.

Diolch i awelon Penllyn
  Am gusanu etto 'ngrudd;
O! mae rhywbeth ynddynt heddyw'n
  Gydnaws iawn â'm hysbryd prudd;
Lleddfach nag erioed yw sibrwd
  Pob yr awel ar ei thro;

A pha ryfedd? Llwythog ydyw
  Gan ddwys ocheneidiau'r fro.

Llawer gwaith bu murmur gwylaidd
  Tonau'r Tegid yn fy nghlust,
Ond deongli o'r blaen ni fedrais
  Ystyr dwfn eu pruddaidd "*Ust:*"
O! mor werthfawr heddyw ydyw
  Cydymdeimlad natur fwyn;
Dyry 'i hysgwydd dan y gofid
  Sydd i mi'n rhy drwm i'w ddwyn.

Dyma fedd y Doctor PARRY,
  Dyma fedd anwylddyn gwlad,
Dyma fedd i deimlad cenedl,
  Sydd yn wir yn feddrod tad,
Fel y tystiai gwedd y miloedd,
  Pan y trowyd Bala dref
I'r holl wlad yn Hadadrimmon
  Ar y dydd y claddwyd ef.

Ha! mi welaf fyrdd o lygaid,
  Llygaid aur yr wybren dlos,
Oll yn tremio i'r un cyfeiriad,
  O dan dywell ael y nos,
Fel pe byddai'r llanerch fechan
  Heno sydd yn llyngcu bryd
Pryf y ddaear yn ganolbwynt
  Manwl sylw'r nef i gyd.

Oes, mae teimlad ganddi hithau,
  Wyla'n awr ei dafnau gwlith
Ar y bedd—ond hawdd adnabod
  Dagrau'r ddaear yn eu plith;
Croew bêr yw dagrau'r nefoedd,
  Hallt a chwerw'm dagrau i,
Nid oes le i dristwch yno,
  Ennill nef yw'n colled ni.

Chwi, angylion, O! na fedrech
  Adael dagrau plant y llawr
Yma i aros, buan ffurfient
  Ar y bedd *un* deigryn mawr
Wasanaethai'n golofn deilwng
  Yma uwch ei farwol ran,
Nid i anfarwoli'r person,
  Ond i anfarwoli'r fan.

Awen dirion, sych dy ddagrau,
  Cadw'th flodeu tlysion wedd,
Fe gei waith amgenach heddyw
  Na thaflu blodeu ar y bedd;
Adgof arnat sydd yn galw,
  Deisyf mae am help dy law
Tra'n darlunio Dr. PARRY,
  I feddyliau'r oes a ddaw.

Fel pregethwr, athraw, llenor,
  Saif ei enw 'n hir ar g'oedd,

Etto, nid yr un o honynt
  Chwaith, na'r *oll* o honynt oedd:
*Dyn* oedd Parry—beth yn chwaneg?
  Ansoddeiriau, ffowch yn mhell—
O elfenau pur dynoliaeth,
  P'le y ceid cyfuniad gwell?

Natur o'i hamrywiol ddoniau,
  Iddo fu yn hynod hael;
Dysg oruchel rodd y diwyll
  Goreu iddo ellid gael;
Llafur cysson a ddadblygodd
  Ei alluoedd mewn iawn bryd,
Tra 'r oedd gras ar allor crefydd
  Yn cyssegru'r ffrwyth i gyd.

Awydd dirfawr am wybodaeth
  Deimlai'n llengcyn ieuangc oed,
Ni orphwysai nes cael teimlo
  Copa'r Alps o dan ei droed;
Tynu wnai gan faint ei syched,
  Yr Iorddonen gref i'w safn—
Ië, môr y dyn cyffredin,
  Iddo ef nid oedd ond dafn.

Cynnar iawn ymdori allan
  Yn ei ddefnyddioldeb wnaeth,
Nid trysori iddo 'i hunan
  Fel y tywod ar y traeth;

Tra ei feddwl cryf yn sugno
  Iddo 'i hun yr eang fyd,
O helaethrwydd dwfn ei galon
  Rhoddai allan gyfoeth drud.

Bronau'r ysgol Sul a'i magodd,
  Ca'dd ei feithrin yn ei chôl;
Yntau'n fab diolchgar, teilwng,
  Dalodd iddi'r pwyth yn ol;
Yn yr Ysgol Sul a'r Eglwys,
  Ffyddlawn ar ychydig fu,
Nes ar lawer ei gosodwyd
  Gan Berchenog Mawr y tŷ.

Megys IESU, ei Waredwr,
  Saer oedd yntau 'n moreu 'i oes,
Nes yn bedair blwydd ar hugain
  I athrofa'r Bala troes;
Yno, ac wed'yn yn yr Alban,
  Dringodd uchelderau dysg,
I'w gymmhwyso 'n "ben saer celfydd"
  Tŷ yr Arglwydd yn ein mysg.

Dwfn *fyfyriwr* fu, a *gweithiwr*
  Diwyd, cysson hyd ei oes;
Mair a Martha gyd-lettyent,
  Ynddo ef heb dynu'n groes,
Nes cael tŷ o'r mwyaf addas
  I roesawu Brenin Nef,

Temtid hwn i wneyd ei gartref
  Beunydd dan ei gronglwyd ef.

Tra yn ddwfn i'r ddaear frasaf,
  Mewn myfyrdod treiddiai 'i wraidd
Ei ganghenau mewn gweithgarwch
  A orchuddient Gymru braidd;
Da fu eistedd dan ei gysgod
  I laweroedd yn ein gwlad,
Rhydd ei ffrwyth i genedlaethau,
  Nerth meddyliol a mwynhâd.

Hir ei cofir fel Pregethwr,
  Cymmhwys Efengylwr fu;
Uchel nôd ei weinidogaeth
  Oedd dyrchafu 'r Iesu cu:
Trethai 'r holl-fyd i'r efengyl—
  Dygodd lawer trostan gref
O fforestydd dyrus Almaen,
  I godi baner gras y nef.

Mêr a brasder Duwinyddiaeth
  Yn ei weinidogaeth gawd—
*Trefn* i gadw dyn colledig,
  Duw yn *Dad*, ac Iesu 'n *Frawd;*
Mawr *ddirgelwch* y *Cnawdoliad,*
  Dyfnder maith ei *Aberth* ef,
Gwyrth yr *Adgyfodiad* rhyfedd,
  A'r *Eiriolaeth* yn y nef.

*Sylwedd* ei athrawiaeth ydoedd,
IESU 'r croeshoeliedig Un;
Teithi ei ysbryd geid yn amlwg
Yn y *lliw*, ac yn y *llun;*
Marw Crist—i lygad cariad,
*Aberth* Dwyfol ynddo sydd;
Tra, heb wadu dim o'r aberth,
*Iawn* yw'r oll i lygad ffydd.

Hoffus air i Mr. PARRY,
Oedd *yr aberth*, mil a ŵyr,
Yn ei fawredd anghymmharol,
Yn ei wirfoddolrwydd llwyr;
Delw'r dyn oedd ar y bregeth,
Delw'r bregeth ar y dyn—
Cariad yn addoli 'r aberth,
Cariad yn aberthu 'i hun.

Amcan mawr ei holl bregethau
Ydoedd gwneyd aberthau byw
O'i wrandawyr, a'u cyflwyno
Yn ddifai ar allor Duw;
Ennill pawb i *fyw yn sanctaidd*
Yma, megys yn y nef—
Gwneuthur bywyd pawb yn anthem
Gynghaneddol "*Iddo Ef.*"

Cyflawn ydoedd o'r eneiniad
Oddi wrth y sanctaidd Un—

Ysbryd barn, ac ysbryd llosgfa,
  Gwres a goleu yn gyttûn;
Mynych, gyda'i *bwyslais* hynod,
  Gwasgai'r cwmmwl—rhwygai'r llen,
Nes dyhidlai 'r ysbryd nefol
  Yn gawodydd ar ein pen.

Cymmhwys iawn yr enw gafodd
  Gan gyffredin lais y wlad—
*Ioan* fwyn, yr ail *Ddifeinydd,*
  *Dysgybl anwyl:*—Pwy a wâd,
Er yn uchel werthfawrogi
  Deall clir a llithrig ddawn,
Mai y *galon* eang wresog
  Sydd yn gwneyd difeinydd iawn.

Anhawdd meddwl am ragorach
  Blaenbrawf o fwynhâd y nef,
Na chymmundeb yn y Bala
  O dan ei weinyddiad ef;
Melus gofid marw'r Iesu,
  Nid yn ofnus a di-hedd;
Troai ef y cofio rhyfedd
  In' yn orfoleddus *wledd.*

Er na wisgai 'r enw 'bugail,'
  Etto, pwy fugeiliai 'n well?
Gwir ofalai am y defaid—
  Porthai'r agos—ceisiai 'r bell:

Hawdd y cyfaddasai 'i hunan
  At bob gradd, ac oed, a maint;
Braidd na dd'wedem mai ei gampwaith
  Ydoedd trin profiadau 'r saint.

Medrai 'r ffordd i gonglau eithaf
  Celloedd dyfnaf calon dyn;
Dygai allan bur brofiadau
  Synent braidd y dyn ei hun:
Dyfnder geid yn galw ar ddyfnder
  Mewn ymddiddan serchog rhydd,
Ac o gilfach na ddisgwylid
  Dygai berl i oleu dydd.

Mynai ar y pwngc dan sylw
  Adnod gan bob brawd a chwaer,
Cadwai 'r eglwys oll mewn llafur—
  O! mor ddiwyd! O! mor daer!
Nimrod oedd ar ol adnodau,
  Heliwr cadarn arnynt fu—
O'r ysglyfaeth iawn arlwyai
  Wledd i bawb f'ai yn y tŷ.

"*Un o fil*" oedd Mr. PARRY
  Fel deonglwr llwybrau'r Ne';
Gyda gair fe chwalai 'r nifwl,
  Gwelid pobpeth yn ei le;
A pha ryfedd?—gyda'r truan
  Meddai gydymdeimlad byw,

Tra cartrefai 'i ysbryd beunydd
Yn nirgelwch nefol Duw.

"Mab Dyddanwch" i'r eglwysi
Ydoedd, megys Barnabas;[1]
Llawenhäai o eigion calon
Pan yn gwel'd effeithiau gras
Ar yr eglwys, man lle deuai;
A chynghorai gyda sêl
Bawb i lynu o lwyrfryd calon
Wrth yr Arglwydd—doed a ddêl.

Fel Apolos[2] gynt yn Corinth,
Ymroddedig oedd i'r gwaith—
Cadarn yn yr Ysgrythyrau,
Ymadroddus—llawn o iaith;
Athrawiaethai 'n ddiwyd gysson
Gydag ysbryd gwresog llawn;
Ar y rhai trwy ras gredasent
Cynnorthwyodd lawer iawn.

Nid i blanu ei hanfonwyd,
Eithr yn benaf i ddyfrhau;
Wedi i arall argyhoeddi
Yntau geid i gadarnhau:
Er fod i'n hathrofa hauwr
Gwirioneddau, megys Paul,
Rhaid oedd cael, i gyrhaedd llwyddiant.
Gwaith Apolos ar ei ol.

[1] *Actau* xi. 23. [2] *Actau* xviii. 24—27.

Llwyddo wnaeth Athrofa y Gogledd
  Trwy gael PARRY iddi 'n rhodd,
Llygad craff ei Thad a welodd
  Ynddo fammaeth wrth ei fodd;
Diwyd iawn y bu 'n ei maethu,
  Gan ei gwylied rhag pob cam;
Erbyn heddyw, chwith ei gweled
  Fel amddifad heb ei mam.

Yno 'n ail i Ananias
  Cyfarwyddai 'n dduwiol gall,
Llawer llestr etholedig
  Ddygwyd ato megys dall;
Dan ei law y caent eu golwg,
  Llenwid hwy â'r Ysbryd Glân,
Ac yn ebrwydd Crist bregethent,
  A'i air ynddynt megys tân.

Am eu bod yn anwyl ganddo
  Y cyfranai foreu a hwyr,
Nid ei addysg, ond ei *enaid*—
  Hunan-ymaberthai 'n llwyr:
Ar wasanaeth ffydd y Coleg
  Tywallt wnaeth ei nerth a'i hoen—
Ymorphwysai yn y drafferth,
  Ymbleserai yn y boen.

Nid anghofiai yr unigol
  Wrth ofalu am yr oll,

Ar ei galon ei hargrephid,
  Ni chai'r iota fyn'd ar goll;
Rhifo wnai rifedi 'r Coleg,
  Rhoi i bawb ei enw 'i hun,
A chan amlder ei graffineb
  A'i fawr serch, ni phallai un!

Mynai waith gan bob efrydydd;
  I'r esgeulus nid oedd rhan
Yn ei gydymdeimlad—etto
  Pwy mor dyner wrth y gwan?
Llongyfarchiad Mr. PARRY,
  Dim ond un ysgydwad llaw,
Godai'r ysbryd llesg i fyny
  Megys haul ar ol y gwlaw.

Medrai ef, â'i frwd hyawdledd,
  Osod rhyw ddymunol naws
Ar y pyngciau mwyaf diflas,
  Barai fod eu dysgu 'n haws;
Rhoddai swyn ar bethau dyrus,
  Ac yn ngrym ei ddifyr ddawn
Gwisgai ef â thlysni bywyd
  Esgyrn sychion—sychion iawn.

Cofir rhai odfeuon hwyliog,
  Os nad gwlithog, ambell waith
Mewn Athroniaeth a Rhesymeg
  Ac wrth drafod gwreiddiau Iaith!

Sŷn o beth cael odlau Horas,
  Dan eneiniad uchel ryw!
Euclid oer gan dân yn ffaglu!
  Ffugrau Alsawdd oll yn fyw!

Trwy y serch i mewn i'r deall
  Esmwyth iawn y gwnelai ffordd;
Meddai allu gonc'rai g'ledwch—
  Gallu 'r tân, nid gallu 'r ordd:
Llawer talp o feddwl rhewllyd,
  Diffrwyth, trymaidd fel y pres,
Ddaeth yn ardd gynnyrchiol brydferth
  Dan ei fywiocaol wres.

Cynnil iawn o'i farn ei hunan
  Ar faterion ceid ei fod,
Meithrin annibyniaeth meddwl
  Yn ei addysg oedd ei nôd;
Rhyw annelwig ddefnydd meddwl
  A gyfranai, rhaid i'r dyn
Oedd ei ffurfio, a'i ddychwelyd
  Ar ei lun a'i ddelw ei hun.

Doeth y cuddiai lawer syniad
  Yn yr hesg ar lan y lli',
A thrwy gyfres o gwestiynau
  Medrus yr arweiniai ni
Tuag ato:—ac nid rhyfedd,
  Wedi agor cil y drws,

Oedd i'r hwn a'i *darganfyddai*
  Wel'd ei fod yn syniad tlws.

Llawer meddwl fu 'n dihoeni
  Mewn caethiwed Aiphtaidd prudd,
Lle, heb wellt, priddfeini hawlid,
  Roddwyd ganddo ef yn rhydd;
Wedi eu denu i'r anialwch,
  Wrth eu bodd llefaru wnaeth,
Gan eu harwain yn ddiogel
  Tua gwlad y mêl a'r llaeth.

Llawer tuchan a ddioddefodd;
  Llawer torcalonus gŵyn
A wrandawodd—ond mor barod
  Oedd yn wastad i gyd-ddwyn!
Pan yn cychwyn yr arswydent,
  Ef â'i fraich a barthai 'r aig!
Llawer tro y tynodd iddynt
  Ddwfr o'r adamantaidd graig!

Ac i grefydd yr efrydwyr
  Diau bu 'n fagwraeth gref;
Teimlid mewn awyrgylch nefol
  Yn ei bresennoldeb ef:
Perarogledd yr efengyl,
  Yn anymwybodol bron
Iddo 'i hunan, a ymdaenai
  Oddi wrtho'n don ar don.

Iaith ei ddull oedd "Deuwch ataf,"
Fel yr Athraw Mawr ei hun:
Os bu ail i'r Iesu addfwyn,
Mr. Parry oedd y dyn.
Gostyngedig oedd o galon,
Ysgafn oedd ei faich i'w ddwyn,
A'i ddysgyblion, braidd na dd'wedem
Feiddient farw er ei fwyn!

Haul hyd yma fu'r Athrofa—
Haul, â'i belydr yn ddiball;
Rhagoriaethau yr athrawon,
Goleu un, a gwres y llall:
Drwy'r efrydwyr bell gyrhaeddent
Yn flynyddol donau mawr;
Os daeth cwmmwl, Duw a gadwo
Haul ein gwlad rhag myn'd i lawr.

Nid yw 'n rhaid i Mr. Parry
Fynor feini yma 'n garn;
Iddo 'i hun gwnaeth gofgolofnau
Safant hyd ac *yn* y farn:
Tystion byw 'n llefaru am dano
Geir yn britho gwlad a thref—
Saif yn holl bulpudau'r enwad
Gofgolofnau iddo ef.

Dyn i'w oes, a dyn i oesoedd
Etto i ddyfod fu ein brawd,
Dyn i'r enwad Methodistaidd,
Dyn i'w genedl ynddo gawd;

Trwy 'r anfarwol "WYDDONIADUR,"
  Cryfaf golofn teml yr iaith—
Asgwrn cefn llenyddiaeth Cymru
  Ei hystyrir dymmor maith.

Llu o brif lenorion Cymru
  Godent ar ei amnaid ef,
Ac ar faes y "GWYDDONIADUR,"
  Unodd hwy yn fyddin gref;
Trwm yw gwel'd yr hen gadfridog
  Wedi syrthio yn y gâd,
Ond mae'r gelyn—Anwybodaeth—
  Ar ei encil yn ein gwlad.

Chwiliodd gyfandiroedd eang,
  Holl wyddorau'r byd o'r bron;
Chwys ei wyneb, gwaed ei galon,
  Gollodd yn yr ymgyrch hon:
Ugain mlynedd casglodd geinion
  Pob gwybodaeth îs y nen,
Gan eu trefnu 'n goron oesol
  Ar lenyddiaeth Cymru wen.

Pan yr oedd athrylith Gwalia
  Ar lewygu o syched blin,
Dug o holl ffynnonau 'r oesoedd
  Ddyfroedd bywiol at ei min;
Gloew ffrydiau 'r "GWYDDONIADUR"
  Ddisychedant lawer oes,
Ac wrth dreiglo 'mlaen hwy ganant
  Glod yr hwn i ni a'u rhoes.

Enw mawr sy'n gosod mawredd,
Yn ei oes ar ambell ddyn;
Dyma ŵr osododd fawredd
Ar ei enw syml ei hun:
Ni chwanega 'i alw 'n "*Ddoctor*"
Hanner gronyn at ei fri,
Ac yn wir mae "*Mr.* PARRY"
Yn anwylach genym ni.

Mawr oedd PARRY fel meddyliwr,
Mawr ei ddysg, a mawr ei ddawn;
Grym ei dalent hawliai iddo
Yn mhob cylch edmygedd llawn:
Ond ei galon fawr agored
Oedd gogoniant pena'r dyn—
Mawredd moesol, nerth daioni,
Prif ogoniant Duw ei hun.

Byw a wnaeth â'i ben ar fynwes
Ei Waredwr mwyn o hyd,
Gan ymwrandaw â chyfrinion
Ysbrydoliaeth nefol fyd:
Sugnai ysbryd ei Anwylyd,
Ac anadla 'i anadl ef,
Cyn i'w dŷ o glai ymddattod
Ffodd ei ysbryd tua'r nef.

Yn ei deulu safai 'n uchaf—
Nid fel brenin yn creu braw;
Ar ei wedd ni cheid i'w darllen
Byth y geiriau "*Ciliwch draw!*"

Llywodraethai mewn addfwynder;
  Os oedd cyfraith yn y tŷ,
Cyfraith rhyddid ydoedd hono,
  Serch a pharchedigaeth cry'.

Gwir foneddwr oedd o anian
  Heb ddim cysgod rhodres ffol,
Ac yn mhob man y gadawai
  Arogl esmwyth ar ei ol.
Tra mawrheid ei bresennoldeb
  Yn mhalasau meibion ffawd,
Ef ei hun fawrhäai 'n ogymaint,
  Roesaw syml y bwthyn tlawd.

Nid rhyw enfys liwiog danbaid,
  Synai fyd â thegwch brau,
Oedd efe, gan lwyr ddiflanu
  Wrth in' ati agoshau:
Seren ydoedd—loew, dawel,
  Daflai lewyrch clir yn mhell;
Ond wrth esgyn i'w chym'dogaeth,
  Chwyddai'n fwy—goleuai'n well.

Sir Feirionydd, dosbarth Penllyn,
  Tref y Bala 'n anad un,
Gafodd weled Mr. Parry
  Yn ei fawredd gwir ei hun:
Tra mae talent yn ymfflachio
  Trwy y wasg i'r pellder draw,
*Calon* nid eglura 'i hunan
  Ond i'r rhei'ny sydd ger llaw.

I'r Ysgolion Sul yn Mhenllyn
  Ffyddlawn fu hyd at y gwraidd;
Carai 'r ysgol yn angerddol,
  Gweithiai erddi gydag aidd;
Holwyddorwr heb ei gymmhar—
  Ni wnai ei ddysgeidiaeth ddofn
Darfu neb; ond "perffaith gariad"
  Geid "yn bwrw allan ofn."

Ffyddlawn i'r eglwysi lleiaf,
  Fel y mwyaf, cafwyd ef,
A phregethai mor ymroddgar
  Yn y cwm ag yn y dref;
Dug efengyl i'r tylodion,
  A chyhoeddai gyda blâs,
Fel ei Arglwydd, "*i rai bychain*"
  Anchwiliadwy olud gras.

Gwnaeth ei oreu i hyrwyddo
  Achos addysg yn y dref;
Wrth y cerbyd trwm ac araf
  Teimlid nerth ei ysgwydd gref:
Pan â'r ysgol yr ymwelai
  Ymsiriolai gwedd y plant—
Sŵn ei droed anfonai drydan
  Bywiol drwy galonau gant.

Yn flynyddol ar esgynlawr
  Y Gymdeithas Feiblaidd—pwy
Yn y cylchoedd fedrai gario
  Ar y dorf ddylanwad mwy?

Pan yn traethu cyfaddasder
  Llyfr y nef i'r truan tlawd,
Ac yn dadleu hawliau 'r pagan,
  Nid fel noddwr, ond fel *brawd?*

Digon mawr oedd Mr. PARRY
  I gofleidio'r isaf ddyn;
Digon mawr i ymddarostwng,
  Etto heb anurddo 'i hun;
Uchel gais—os iawn yr enw—
  Iddo ef oedd gŵyro i lawr
I ddyrchafu'r bychan eiddil—
  Hyn a'i gwnaeth yn *ddwyfol* fawr!

Ymgyflwynodd, gorph ac enaid,
  I wasanaeth llwyr ei Dduw;
Yn mha le y ceid, er chwilio,
  Gynllun gwell o "aberth byw?"
Yn y pulpud—yn y coleg—
  Gartref, yn ei fyfyr-gell—
Gweithio oedd ei fwyd a'i ddiod,
  Pan yn agos, pan yn mhell.

Distaw iawn, ond llwyr a chysson
  Oedd ei ymgyssegriad ef;
Afon ddofn ar lawr y dyffryn—
  Fyth yn dawel, fyth yn gref;
Nid ymguro 'n erbyn creigiau,
  Ond ffrwythloni 'r eang ddôl
Fu ei ran, heb dwrf nac ewyn
  I ryfeddu 'r werin ffol.

Uchaf swyddi'r gymdeithasfa
  Ddaliwyd ganddo gyda llwydd,
Ond ni ddaeth i galon enllib
  Fod ei fryd ar ennill swydd:
Cuddio 'i hunan oedd ei arfer,
  Mewn cymmanfa, ar y llawr;
Duw ei hun a'i dengys heddyw
  Yn nghyn'lleidfa nefoedd fawr.

Tebyg idd' yr haul oedd PARRY 'n
  Cuddio 'i hunan yn ei wawl;
Gwneyd daioni yn ei gylchoedd,
  Fu ei nôd—nid ennill mawl;
Defnyddioldeb, nid enwogrwydd,
  Bod, nid dangos, oedd ei gais—
"*Yn ychwaneg*" rhoddwyd iddo
  Glod ei genedl âg un llais.

Llafur corph, a llafur meddwl,
  Brofodd iddo 'n faich rhy drwm;
Llosgi 'n gynnar wnaeth y fegin,
  A chan wres y toddai 'r plwm:
Darfu, do!—ond nid trwy rydu,
  Mewn rhyw hir esmwythyd chwaith;
Dyn i *dreulio* ydoedd PARRY—
  Gwisgodd allan yn y gwaith.

Dydd symmudiad yr Athrofa
  I'w phalasdy newydd, gwych,
Trwm oedd gweled mam y teulu
  Dan arwyddion marwol nych;

Gorfoleddus ŵyl oedd hono,
  Etto, nid gorfoledd pur,
Gwedd wywedig Mr. Parry
  Oedd i bawb yn "ddeilen sur."

Pwy anghofia 'i law grynedig
  Pan yn planu'r irlas bren
Yn yr ardd y diwrnod hwnw
  Dan gawodydd hael y nen?
(Mor briodol yr arwyddlun!)
  Er i'r llaw falurio 'n llwch,
Pery 'r gwaith am lawer blwyddyn
  Etto mewn gwyrddlesni fflwch.

Ai yn atteb i weddïau 'r
  Diwrnod hwnw iddo rhoed,
Nerth i wasanaethu 'r coleg,
  Braidd mor fywiog ag erioed?
Ynte, a oedd gan angeu *galon*,
  Pan ymgiliai 'n ŵysg ei gefn,
Wedi taraw 'r ergyd gyntaf,
  Rhag rhoi iddo 'r un drachefn?

Trwm er hyny ydoedd gweled
  *Cysgod* angeu ar ei wedd—
Yntau 'n crwydro rhwng y ddeufyd,
  Fel yn 'mofyn am ei fedd;
Disgwyl am ei ymddattodiad,
  Etto 'i Dad yn oedi 'r awr,
Rhag i ddyrnod mwy dirybudd
  Daraw Seion wan i lawr.

Urddwyd ef â'r teitl o *Ddoethor*
O'r Americ bell yn rhodd,
Fel tystiolaeth cyn ei symmud
Ddarfod iddo ryngu bodd
Beirniaid craffa 'r oes :—nid bychan
Ydoedd hyn er mwyn ei wlad,
Ond annhraethol uwch tystiolaeth
Ga'dd i'w fynwes gan ei Dad.

Llonodd *tysteb* ei ddysgyblion
Lawer ar ei feddwl gwan;
Tòn oedd hono a anfonwyd
Megys cenad tua 'r lan;
Bechan oedd, ond cenadwri
Fawr a gludai iddo, sef
Fod y dyfnder drwyddo 'n berwi
O gydymdeimlad pur âg ef.

Daeth ei ddydd i hunan-ddiosg
Gwisgoedd ei athrawol swydd,
Wedi eu cadw 'n ddifrycheulyd
Bellach ddeg ar hugain mlwydd:
*Dyna'r dydd* y rhoddwyd iddo,
Megys Aaron, yn eu lle
Wisgoedd mil mwy anrhydeddus,
Gogoneddus yn y ne'!

Pan yn rhoi o'i fodd i fyny 'r
Gadair Athrofaol—cyn
I'w olynwyr eistedd ynddi,
Ymddangosodd angel gwyn,

Oedd yn disgwyl er's blynyddoedd
  Am yr awr i'w gludo fry;
Gorsedd wâg oedd yno 'n barod—
  Deheu law ei Briod cu.

Wedi bod am rai blynyddoedd
  Fel yn Babilon yn gaeth,
Yno â'i delyn ar yr helyg,
  Dydd gollyngdod iddo ddaeth;
Tua Chanaan y cychwynodd,
  Ac fel hyn y canai 'n iach—
"Peidiwch wylo! *I am going*
  *To God's rest!*—fy Sarah bach!"

"*To God's rest!*" O! air amserol!
  Rhyw belydryn bychan, tlws,
Pan oedd pyrth y nef yn agor
  Lithrodd heibio cil y drws,
Gan oreuro mîn y cwmmwl,
  Sydd mor bygddu 'r ochr hyn—
Sicrwydd fod yr ochr arall,
  Oll yn ogoneddus wyn!

"*To God's rest!*" sydd yn pereiddio
  Dyfroedd Marah, chwerw flâs;
"*To God's rest!*" i'n brawd ei hunan,
  Dynodd golyn angeu glâs;
"*To God's rest!*" gymmoda'r teulu
  Ag ymddygiad Brenin braw;
"*To God's rest!*" a'n temtia ninnau
  A'r gelyn hyll i ysgwyd llaw.

Ei weithredoedd a'i canlynant,
  Cyn bo hir i gartre'i Nêr—
Llu o weinidogion Cymru,
  Yn disgleirio fel y sêr;
Bloeddiai amryw un o honynt,
  A'i blaenorodd yno i fyw,
"Croesaw! croesaw! Athraw anwyl!
  Croesaw i orphwysfa Duw!"

Gorphwys mae *oddi wrth* ei lafur,
  Etto gorphwys *yn* y gwaith;
Gorphwys mewn myfyrdod bywiog,
  Mwy i dragwyddoldeb maith;
Bob yn draflwngc dyhysbyddai 'r
  Ffrydiau mân o un i un—
Bellach uwch tragwyddol ddigon
  Yf o ffynnon Duw ei hun!

Gorphwys! gorphwys! Athraw tirion!
  Haeddaist hyn os haeddodd neb,
Er fod cenedl gyfan heddyw
  Ar dy ol â'i grudd yn wleb;
'Roedd yn bryd it' gael gorphwyso—
  Maddeu in' am fod mor ffol:
Ond, yn wir, mae arnom hiraeth—
  Hiraeth *calon* ar dy ol!

Hir y pery mynwent Beuno
  In' yn anwyl er dy fwyn;
Ac i'r ywen uwch dy feddrod
  Cluda'r awel lawer cŵyn;

Yn ei changau bythol dduon
  Awen Seion wnaiff ei sedd;
Llu o weithwyr etto ddeuant—
  Eu harfau finiant ar dy fedd.

Daw dy gorph i'r lan ryw ddiwrnod,
  Megys corph dy Brynwr glân—
Corph a ddeil weithrediad grymus,
  Enaid llawn o ddwyfol dân;
Corph ysbrydol, gogoneddus,
  Bythol ieuangc, bythol fyw;
Corph a all, 'r un modd a'r enaid,
  Orphwys yn "ngorphwysfa Duw."

Ffydd a wêl yn awr yn eglur
  Foreu 'r Adgyfodiad draw,
Ar adfeilion teyrnas angeu,
  CHARLES a thithau 'n ysgwyd llaw;
Moelydd Penllyn oll yn ffaglu,
  A'r llyn yn berwi hyd y nen—
Chwithau 'n tawel deithio i fyny,
  Yn ngherbyd goreu 'r nefoedd wen!

Gobaith fŷn dy bortreadu,
  Etto mewn athrawol swydd,
Dan gysgodion Pren y bywyd—
  Tyrfa astud yn dy ŵydd;
Traethu 'r wyt rinweddau 'r PERSON,
  Hwythau 'n uno yn ei glod—
Yn y dosbarth gogoneddus,
  Arglwydd da! gaf' finnau fod?

"O! ddedwydd ddydd, tragwyddol orphwys
  Oddi wrth fy llafur, yn fy rhan,
Yn nghanol môr o ryfeddodau,
  Heb waelod, terfyn byth, na glan!
Mynediad helaeth mwy i bara
  O fewn trigfanau TRI YN UN;
Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo,
  Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn."

ONESIMUS.

# MARWNAD,

GAN

Y PARCH. EVAN DAVIES, LLANGYNOG,
CROESOSWALLT.

---

SEION DUW, pa beth yw'r siomiant?
  Beth yw'r newydd mawr ei bwys,
Sydd yn gwelwi dy wynebpryd,
  Ac yn creu'r ochenaid ddwys,
Weithia 'i ffordd o ddwfn dy fynwes?
  Dywed beth yw'th ofid cudd?
Beth a barodd i dy ddagrau
  Dreiglo 'n afon dros dy rudd?

Pob ymdeithydd sydd yn gofyn,
  Gyda phryder, "Beth sy'n bod?"
Gweled tyrfa ar ol tyrfa
  Tua thref y Bala 'n dod!
Golwg drymllyd ar y fangre,
  Pawb yn wylo ynddi sydd—
Dyeithr a phriodor hefyd
  Yn cydostwng pen yn brudd.

Ymchwydd tristwch wedi dryllio
  Dôr i'n hystafelloedd cudd,

Gofer galar yn afoni
  Hyd y wlad yn genlli' sydd;
Cenedl gyfan heddyw ddygwyd
  At y bedd, â golwg syn—
Cymru sydd yn curo 'i dwyfron
  Yn drallodus!—Beth yw hyn?

PARRY 'r Bala wedi marw!
  Dyma a gynnhyrfodd stôr
Galar Cymru i ymchwyddo
  Fel y rhwygai 'r cauad ddôr:
Dyma'r achos o'r cwynfanu
  A'r galaru ar bob llaw,
Dyma wna i'r galon grynu
  Ar lesmeirio yn ei braw.

Dyma un bu raid i Gymru
  Wneyd o hono gyfrif mawr—
Un o'i meibion glewaf fagodd
  Ar ei glin yn farw 'n awr!
Heddyw hefyd yw dïwrnod
  Appwyntiedig Gwalia gu
I roi llwch ei mab i orwedd
  O dan len y ddaear ddu.

Llef wylofus sydd yn Rama,
  Galar dwfn ac ochain mawr;
Methodistiaeth, megys Rahel,
  Am ei phlant yn wylo 'n awr!
Ni fŷn gysur, am nad ydynt;
  Gweddw ddiblant—mae ei bron

Dyner dan archollion dyrnod
  Angeu 'n gwaedu 'r adeg hon.

Ond nid plaid nac enwad heddyw
  Ar ei ol yn teimlo geir;
Y mae holl enwadau Cymru
  O dan archoll na wellheir;
Cysgod angeu wedi taenu
  Hyd eu hawyr orchudd len,
Nad oes haul, na lloer, na seren,
  Yn llewyrchu uwch eu pen.

Swyddi gweigion, sefydliadau
  Yn amddifad sydd yn awr;
Mae y bwlch o'i ol i'w ganfod
  Yn mhob cylch yn adwy fawr:
PARRY oedd yn un o'r mawrion,
  Ag y rhaid cael llawer un
Cyn y gwneir y lle yn gyflawn
  Lenwid ganddo ef ei hun.

Adgof sydd â'i fys yn dangos
  I ni o ba le y daeth—
Nodi 'r rhiwiau serth a ddringodd,
  Cyfrif y gorchestion wnaeth;
Er mai bychan ei ddechreuad,
  Dirfawr fu ei gynnydd ef—
Aber eiddil wrth ymdreiglo
  Yn ymchwyddo 'n afon gref.

Enwi gyda pharchus adgof
  Wneir ei enedigol le;
Er mor ddinod yw y fangre
  Ca'i mawrhau gan engyl ne':
Bydd enwogrwydd ar ddistadledd
  Bersham fechan er ei fwyn—
Enw Parry a fendithiodd
  Enw 'r lle â bythol swyn.

Bersham ga'dd y fraint o guddio
  Yn ei mynwes dlws i Dduw,
Un o'r llestri etholedig
  Fu o'r golwg ynddi 'n byw;
Felly mae y nef yn arfer
  Noddi ei breintiedig blant
Yn neillduedd ardal unig,
  Megys "myrtwydd yn y pant."

Trwy gael mam a thad crefyddol,
  Eistedd bu wrth draed y saint;
Addysg dduwiol ar yr aelwyd
  Oedd ei enedigaeth fraint;
Cynghor tad ar groesffordd bywyd
  Fu 'n fynegbost iddo ef—
Bys esiampl ei fam gyfeiriodd
  Gamrau John i ffordd y nef.

Yn helyntion mân yr aelwyd
  Caed awgrymiad lawer gwaith,
Am y mawredd ddaeth i'r golwg
  Ynddo yn mhen blwyddi maith;

Nid oedd hyny ond pelydryn
  Prydferth, disglaer, fel y wawr—
Rhyw flaen genad yn cyhoeddi
  Diwrnod o ddisgleirdeb mawr.

Bendith oedd i'w athraw ysgol,
  Dan arweiniad llaw y nef,
Roi i arall y gofyniad
  Oedd yn disgyn arno ef;
Penderfynodd mewn eiddigedd
  Na cheid ei ddirmygu mwy—
Troediad ŷch ysigai 'r d'warchen,
  Blaendardd derwen wthiodd trwy.

Arwr fu ar feusydd ymdrech,
  Fe ochelodd ffyrdd y ffol,
A gadawodd ei gyfoedion
  Fwy na hanner oes ar ol;
Yn yr Ysgol Sul, a'r eglwys,
  Ymddyrchafai 'n uchel dŵr—
Galwyd arno i swyddogaeth
  Cyn cyrhaeddyd oedran gŵr.

Erbyn hyn yr oedd dysgeidiaeth,
  A'i hudoliaeth, wedi dwyn
Calon JOHN i'w hoffi 'n ddirfawr,
  Gan ei ddal â'i grymus swyn;
Mor angerddol ei ddyhëad—
  Yr oedd yn sychedu am
Lyfr i'w ddarllen, megys plentyn
  Yn sychedu am fron ei fam.

Er fod awydd ei rieni
  Yn ddigonol ar ei ran,
Cul oedd porth cyfleusdra iddo—
  Braich cynnorthwy 'n hynod wan;
Tros derfynau amgylchiadau
  Gorfu dreisio dysg o hyd;
Arfer bod yn ddigon caled
  Wrth athrylith mae y byd.

Ond rhyw fantais fawr neu gilydd
  Mewn anfantais a fwynheir,
Anghyfleusdra dybryd hefyd
  Mewn cyfleusdra 'n fynych geir;
Eiddil ydyw y planhigyn
  Dyf dan gysgod coeden lawn—
Felly y mae cysgod cyfoeth
  Wedi nychu llawer iawn.

Ymdrech ydoedd bywyd PARRY—
  Mwya'r rhwystrau, cryfa'i sêl;
Sugnodd laeth o fronau prinder—
  Lladdodd lew, a chafodd fêl;
Nid oedd anhawsderau iddo
  Amgen meirch i'w gario 'mlaen,
Gris i ddringo i enwogrwydd,
  Wnai o bob tramgwyddus faen.

Curo bu wrth borth dysgeidiaeth,
  Trwyddo 'r aeth i'w sanctaidd swydd;
Ei ymroddiad yn Manceinion
  Gil-agorodd ddôr ei lwydd:

Ar ol dydd o lafur caled,
  Yn ei awr hamddenol äi
I'r llyfrgelloedd am wybodaeth—
  Cysson oedd fel llanw a thrai.

Daeth i'r Bala, unig ffynnon
  Dysg ei enwad ar y pryd,
Gan ddych'mygu yn ei awydd
  Leibio dyfroedd hono i gyd;
Hawdd oedd darllen yn ei ymdrech,
  Ranau o'i ddyfodol glod—
Wele fywyd o ymroddiad
  Diwyd am ei deilwng nôd.

Croesodd fryniau anfanteision
  Tua'r Alban, mewn boddhâd;
Nid i brynu cyfrwy ymffrost
  I farchogaeth dylni 'r wlad;
Ond i geisio y trysorau
  Yn yr ieithoedd meirwon sydd,
Ac er cyfoethogi ei feddwl
  Chwiliodd lawer ogof gudd.

Wedi trethu amgylchiadau
  Hyd yr eithaf, daeth yn ol,
Lledai 'r Bala freichiau cariad
  Am ei dderbyn ef i'w chôl:
Er fod yno ŵr yn planu,
  Mynid arall i ddyfrhau;
Daeth y cynnydd mawr yn amlwg
  Fel canlyniad gwaith y ddau.

Aeth yn athraw i'r Athrofa,
  Os oedd hyny iddo 'n fri;
Buan y daeth enw PARRY
  Yn enwogrwydd iddi hi:
Dan sylfeini y sefydliad,
  Ymollyngai rhagfarn gwlad,
Nes i lafur yr athrawon
  Roi i'w gwaelod gadarnhâd.

Yn ffurfafen y cyfundeb
  Haul dysgeidiaeth sydd yn awr;
Bu ein tadau 'n llawenychu
  Pan o bell yn gwel'd y wawr:
Llu fu 'n ymbalfalu am addysg,
  Megys JOHN ELIAS fwyn,
Heb un fantais yn eu cyrhaedd
  Amgen goleu canwyll frwyn.

Tymmer dda, a charedigrwydd,
  Yni PARRY gyda 'i swydd,
Medr i wneyd y dwfn yn eglur
  Oeddynt brif elfenau 'i lwydd:
Nid oedd dim yn dra-arglwyddaidd
  Yn ei ddull, ei foes, na'i ddawn;
Tynai yr efrydwyr ato
  I agosrwydd hapus iawn.

Pan y gwelid rhai o honynt
  Wedi eu dal gan brudd-der mawr—
Rhyw ddych'mygol anhawsderau,
  Yn eu llethu 'n llwyr i lawr,

Teg sirioldeb Dr. Parry
  Yn eu plith am awr neu ddwy,
Fel tywyniad haul, a ddifai
  Niwl eu digalondid hwy.

Wrth gyfranu dysg i ereill
  Yr oedd ef yn dysgu ei hun;
Wrth wasgaru ei drysorau
  Nid oedd byth yn colli 'r un;
Dyma ydyw 'r ddeddf sefydlog,
  "A ddyfrhao a ddyfrheir,"
Yntau 'r enaid hael wrth roddi
  Yn ddieithriad a frasheir.

Dr. Parry oedd yn dysgu
  Pawb i feddwl drosto 'i hun,
Nid rhoi barnau ystrydebol
  I grebachu meddwl dyn;
Agor dorau teml gwybodaeth
  I'r efrydwyr yr oedd e'—
Gyrai hwynt i mewn eu hunain
  I ysbeilio stôr y lle.

Byddai 'n dadrys cyfundraethau
  Hen athronwyr dwfn y byd,
Dygai allan i eglurder
  Ddyfaliadau 'rhai'n i gyd;
Dyrus byngciau Rhif a Mesur,
  Fel o'r anweledig draw,
A eglurai fel pe buasent
  Yn gerfiedig ar ei law.

Torodd rwymau llawer meddwl
  Ydoedd mewn caethiwed tyn,
Crewyd llawer un o newydd
  Yn ei ddosbarth ef cyn hyn:
Byddai 'n dweyd yr un syniadau
  Lawer modd a llawer llun,
Nes eu taflu 'n ganfyddadwy
  I ddallineb noeth ei hun.

Er ei liaws rhagoriaethau
  Dr. Parry nid yw mwy,
Llawer tô geir o'r efrydwyr
  Heddyw 'n wylo dan eu clwy';
Dros ei fedd at dŷ 'r Athrofa
  Cluded awel oesau i ddod
Anadl bywyd i'r efrydwyr—
  Aidd i gyrchu at y nôd.

Gyda bod yn athraw enwog
  Yn ei gylch, fel cenad hedd
Creodd iddo 'i hunan enw
  Na ddifodir gan y bedd;
Ymaberthodd i was'naethu 'r
  Lleoedd gweiniaid yn y sir,
Mwyda 'r dagrau lawr addoldai
  Bychain Meirion dymmor hir.

Efengylaidd oedd ei ysbryd,
  A'i ymadrodd fel y gwin;
Bywiol ydoedd ei athrawiaeth,
  Yn cyfranu dwyfol rin;

Nid y daran a'i nodweddai—
  Nid y dychryn mawr a'r braw;
Ond i olwg tir y bywyd
  Fe'n cymmerai yn ei law.

Nid äi 'n fynych i ben Sinai,
  Hen gartrefle 'r tân a'r mŵg,
Nac ychwaith i fynydd Ebal,
  I gyhoeddi 'r dwyfol ŵg;
Ar Galfaria 'n traethu Heddwch
  Yr oedd ef yn hoffi byw,
Neu ar hyfryd fryn Gerazim,
  Yn cyhoeddi bendith Duw.

Dacw fe yn yr Areithfa,
  Arnom teifl edrychiad llon,
Etto teimlad dwfn ei ysbryd,
  Sy'n dygyfor yn ei fron;
Sêl ennynir yn ei galon,
  Gwna ei eiriau 'n farwor byw,
Tyrfa orfydd dystio'n ddirgel—
  "Dyma eneiniedig Duw!"

Gan newydd-deb drychfeddyliau,
  A chan faint y dwyfol swyn,
Clyw yr hanner byddar edryd
  Drwy 'r ymadrodd treiddiol mwyn—
Clust y dyrfa yn hoeliedig
  Hollol wrth ei enau sydd,
Deigryn gydag aml ochenaid
  Yn bradychu 'r teimlad cudd.

Mae yn olrhain egwyddorion
  Sydd yn cwrdd yn angeu 'r groes;
Dywed, Boed!—a bydd goleuni
  Uwch ben caddug llawer oes;
Cymmhariaethau yn ddifesur
  Wasanaethant arno ef;
Celf a natur sydd yn rhedeg
  Wrth ei arch â'r gair i dref.

Byddai 'n chwilio ystafelloedd
  Cudd-ddirgelion calon dyn,
Tynai ddarlun byw o fynwes
  Y pechadur iddo 'i hun;
Gyda grym ei ymresymiad,
  Chwelid gau noddfeydd ei oes,
Fel nas gallai gael ymwared
  Hyd nes dyfod at y Groes.

Bywiol Ysbrydoliaeth nefol
  Geid yn gorphwys arno fe;
Gyda'r cyntaf air o'i enau
  Teimlid Duw yn llanw 'r lle:
Pelydr byw o haul ei feddwl,
  Oedd pob brawddeg iddo ef,
Fyddai 'n twymno a goleuo,
  Heb na bloedd, na chodi llef.

Teimlad cynnulleidfa megys
  Telyn yn ei ddwylaw gawn,
A phob tymmher yn cynnhyrfu
  Wrth gyffyrddiad bys ei ddawn;

Y dylanwad araf gerddai
  Fel y chwäon yn y dail;
Byddai 'r dyrfa dano 'n wylo
  Ac yn gwenu bob yn ail.

Heddyw mae ardaloedd Cymru
  Gawsant brawf o'i hyfryd ddawn,
Am na chlywant ei leferydd
  Etto yn hiraethus iawn;
Mud yw 'r llais a fu 'n gwefreiddio
  Cynnulleidfa fawr cyn hyn—
Ffrydlif yr hyawdledd tyner
  Fferodd ar y wefus syn.

Yr oedd meddwl Dr. PARRY
  Megys amgueddfa lawn,
Pob gwybodaeth wedi ei gosod
  Yn ei lle yn drefnus iawn;
Hanesyddiaeth ac Athroniaeth,
  Hynafiaethau 'r byd o'n blaen,
Holl gyfrinion Celf a Gwyddiant,
  Yno ger ein bron ar daen.

Cyfoeth enwog i'n llenyddiaeth
  Trwy ysgrifell PARRY ddaeth,
Dwyn i gyrhaedd gwerin Cymru
  Fantais cylchoedd uchel wnaeth;
Nifer ei ysgrifau dystiant,
  Gyda grym, i'r oesau 'ddêl,
Am ddyrchafu 'r Cymro uniaith,
  Beth oedd maint ei yni a'i sêl.

Dyfal bu 'n dyfeisio cynllun
  I ddyrchafu 'n gwlad i fri,
Torodd ffordd i dir anhygyrch
  Er ei mantais oesol hi;
Llawer fu yn hyf brophwydo
  Aflwydd i'r drychfeddwl mawr,
Ac na byddai ond cuddiedig
  Erthyl gwan heb wel'd y wawr.

Y drychfeddwl hwnw ydyw 'r
  "GWYDDONIADUR" mawr—y gwaith
Gaed i ddwyn annelwig ddelfryd
  Felly yn sylweddol ffaith;
Dwyn i fod orchestwaith oesol—
  Ymffrost ein llenyddiaeth yw;
Ond nid gormod hyn i PARRY,
  Oedd yn "WYDDONIADUR" byw.

Mae llenorion Cymru 'n medi
  Ffrwyth y llafur hwn yn awr,
Ac yn cyfri'r gwaith ardderchog
  Iddynt yn gaffaeliad mawr;
Ond mae 'r cymmwynasydd enwog
  Wedi huno 'n wyw ei wedd,
Na cheir bellach ond rhoi deigryn
  I eneinio llwch ei fedd.

Dr. PARRY oedd yn enwog
  Iawn mewn cylchoedd is i lawr;
Yn yr Ysgol Sul y creodd
  Iddo 'i hunan enw mawr;

Bu 'n symbylu 'r oes i lafur—
  Holwyddorwr goreu 'r wlad;
Mae Cyfarfod Ysgol Penllyn
  Yn ei gyfrif iddo 'n dad.

Wrth arholi yn gyhoeddus
  Ysgol fechan yn y wlad,
Taflu aml ofyniad newydd
  Ynghylch ffydd neu gyfiawnhâd,
Deffr'wyd meddylgarwch gyntaf
  Mewn rhai ieuaingc hwyrdrwm iawn—
Daethant wed'yn i enwogrwydd
  Mewn gwybodaeth, dysg, a dawn.

Yn y Bala 'r cwrdd eglwysig
  Byddai gwrandaw arno 'n fraint,
Gan ei ddawn i drin profiadau
  Ac i ymgeleddu 'r saint;
Pan y byddai un yn cwyno,
  Mynai adnod yn y fan
Gan un arall i'w gysuro,
  Ddygai 'r ysbryd llesg i'r lan.

Gwelwyd Seion dan ei harcholl
  Yn dolefain am iachâd—
Yntau 'n rhoi i boenau 'r fynwes
  Effeithiolaf esmwythâd;
Tywallt wnai i friwiau 'r galon
  Olew tyner gyda 'r gwin,
A dyferai 'r addewidion
  Fel y mêl oddi ar ei fin.

Pan y gwelid rhywun arall
  I dir sicrwydd wedi d'od—
Ofn a phryder wedi darfod,
  Blas ar ddim ond seinio clod,
Taflai air o ochelgarwch
  Iddo gadw sanctaidd bwyll,
Rhag i hyder gau ei arwain,
  I drobyllau hunan-dwyll.

Pan y byddai ar yr aelwyd
  Gwawr sirioldeb lanwai 'r lle—
Haul dedwyddwch gwraig a phedwar
  Plentyn anwyl ydoedd e';
Pelydr ei anwyldeb dwymnai
  Eu serchiadau tyner drwy,
Adlewyrchiad o'r serchawgrwydd
  Hwnw 'n ol a daflent hwy.

'Roedd ei dymmer a'i ymddygiad
  Yn ei gylch yn gwasgar lles—
Pawb o efelychu Parry
  Ant at berffaith foes yn nes;
Tirion dad i'w blant ganllawiodd
  Gyda'i gynghor lwybr barn,
Ol ei draed ar draethell einioes,
  Sy'n dynodi 'r ceryg sarn.

Dyn caredig, cymmwynasgar,
  Siriol ydoedd yn mhob man;
Gwnai ei hun i bawb yn bob peth,
  Cyfaill oedd i'r cryf a'r gwan;

Yn ei ymddiddanion byddai 'n
  Agos at bob gradd ac oed—
C'lymai serch y wlad am dano,
  Fel yr eiddew am y coed.

Mynwes PARRY oedd agored,
  Gwelai pawb ei ffordd i hon;
A chymmerai bawb yn gyfaill,
  Nid oedd dichell yn ei fron:
Nid oedd pall ar ei ffyddlondeb,
  'Roedd ei ysbryd yn ei air—
Arian oedd ei gyfeillgarwch,
  Burwyd seithwaith yn y pair.

Ni ddych'mygai gallai gelyn
  Siarad cyfeillgarwch pur,
Na bod gŵr â gwyneb siriol
  Byth yn cario picell ddûr;
Nis gall gŵr diniwed ddarllen
  Dichell un twyllodrus frawd,
Nes argrephir ei fradwriaeth
  Mewn archollion yn ei gnawd.

Rhoddai orchudd gostyngeiddrwydd
  Ar orchestion mawr ei oes,
Ac i dderbyn clod ei lafur,
  Hanner cam o'i lwybr ni throes;
Ceir brenhinoedd yn ymguddio 'n
  Mysg y dodrefn lawer pryd—
Nid yw mawredd byth yn arfer
  Gwthio 'i hun i sylw 'r byd.

Afraid yw i'r mynydd uchel
  Ddringo i fyny esgyn faen,
Ac nid rhaid i'r haul wrth godi
  Am udganiad corn o'i flaen;
Ni wna talent arddangosfa
  O'r teilyngdod uchel fedd,
Gwrida 'r wyryf mewn gwyleidd-dra
  Pan fawrygir tlysni ei gwedd.

Bod yn llenor a phregethwr,
  Athraw, gan lafurio 'n ddwys,
Gormod oedd i'w natur egwan—
  Ymollyngodd dan y pwys;
Trwm oedd i ni edrych arno,
  Fel adfeilion castell mawr—
Y colofnau yn malurio,
  A phob mûr yn gŵyro i lawr.

Yn ei lafur yr ymgollai,
  Gan anghofio 'i hun yn llwyr;
Nid oedd yn cymmeryd seibiant,
  Treisiai derfyn boreu a hwyr;
Natur ddaeth i hawlio 'i theyrnged,
  Cystudd ga'dd o faith barhâd—
Gyda 'i law yn rhwym fe'i cadwyd
  Ef ar drothwy tŷ ei Dad.

Bŵa 'i lwyddiant ydoedd llafur,
  Ond daeth saeth o hwn i'w gôl;
Profai 'n ofer lawer ymdrech,
  I adferu nerth yn ol;

Er cyfeirio i'r Cyfandir
  Nid oedd iechyd yn gwellhau;
Angeu oedd yn dal ei fwyall
  Fawr ar wreiddyn bywyd brau.

Ond nid misoedd o oferedd
  Fu ei gystudd iddo ef,
Prin gollyngai waith y ddaear,
  Pan yn llamu rhiniog nef;
Cnawd a ballai, bywyd wisgai,
  Ei adenydd chwim i ffoi,
Yntau gydag yni 'n cadw
  Olwyn gwaith i brysur droi.

Digon sydyn yn y diwedd
  Awr ei ymddattodiad ddaeth;
Wedi iddo ddiosg gwisgoedd
  Ei swyddogaeth, ymaith aeth!
Gorphwys gyda'r rhai lluddedig
  Gaiff ar ol blinderus daith;
Sefyll yn ei ran, a gorphwys,
  Bydd i dragwyddoldeb maith.

Hir y bu y gair "Gorphwysfa"
  Ar ei wefus yn ymdroi,
Ond ca'dd nerth i'w dd'weyd yn groew
  Cyn i'r anadl olaf ffoi;
Nid yw 'n teimlo 'i fod yn marw—
  Dim ond ymadawiad yw;
Dywed wrth ffarwelio 'n dawel,
  "'Rwy'n myn'd i orphwysfa Duw."

Pan yn canfod dôr agored
  Yn mhen draw cyfyngi 'r glyn,
Troes ei ben, ac ail ddywedodd
  Wrth y byw y geiriau hyn!
Dafnau y'nt o gwmmwl marw
  O dan haul belydrau hedd,
Yn ymffurfio yn amliwiog
  Enfys bywyd uwch y bedd.

Dedwydd yw "tragwyddol orphwys,"
  Gorphwys mewn tragwyddol waith;
Nid oes llafur, nid oes lludded,
  Byth yn nhragwyddoldeb maith:
Fe orphenodd ef ei yrfa,
  Ymdrech deg, dan gadw 'r ffydd;
Coron fawr cyfiawnder bellach,
  Ar ei ben mewn bywyd fydd.

Ninnau ro'wn ei gorph i orphwys
  O dan leni daear laith;
Melus iawn fydd hûn y gweithiwr,
  Wedi caled-ddydd o waith:
Gwely 'r bedd sy'n gyd-dymmherus
  Gyda'r corph ro'ir ynddo i lawr;
Cafodd Parry 'r byd yn llawer
  Oerach nag yw'r bedd yn awr!

Huno 'mae yn mhlith enwogion
  Penaf Cymru 'n mîn y Llyn;
Er eu bod mewn bedd yn farw,
  Anfarwolion yw'r rhai hyn!

Ni ddaw yma ddim i'w ddeffro,
  Gwynt cythryblus byth ni chwyth,
Ni ddaw tymmhestl i'w ddihuno—
  Nos y bedd sy'n dawel byth.

Daw athroniaeth, dysg, a rhinwedd,
  A daw crefydd at ei fedd,
Rhoddant deyrnged o anrhydedd
  Uwch ei lwch mewn athrist wedd;
Daw llenyddiaeth Cymru, hithau,
  Gyda galar mawr i'w plith—
Wylant oll ar yddfau 'u gilydd,
  Ddagrau heilltion rif y gwlith.

Wrth ei feddrod ef yn olaf
  Erys ein llenyddiaeth ni;
Y mae pentwr mawr o Weithiau 'r
  Dr. PARRY ganddi hi!
Gyda'r rhai 'n mŷn adeiladu
  Idd ei enw golofn clod,
Caiff ei cherf lyth'renau 'u darllen,
  Tra bo 'r iaith Gymraeg yn bod!

Sail a chonglfaen yr adeilad,
  Ydyw 'r "GWYDDONIADUR" mawr!
Pydra'r mynor cyn y gollwng
  Hwn ei enw ef i lawr:
Dyma orchest-waith a'i cyfyd
  Ef i sylw oesau i dd'od—
Enw PARRY ni chyfrgollir,
  Pan bo newid oes yn bod.

Taened ywen laes y fynwent
  Dros ei lwch gysgodol hedd;
Ymwelyddion a dywalltant
  Ddagrau hiraeth ar ei fedd:
Pe bae troediad angof oesau 'n
  Gwneyd y beddrod hwn yn sarn,
Bydd adlewyrch o'i rinweddau,
  Yn ein gwlad hyd ddydd y farn!

Y mae enwi 'r Dr. PARRY
  Yn cynnhyrfu teimlad prudd,
Ac fel udgorn waedd yn agor
  Beddau ebargofiant cudd;
Llawer sylw o'i bregethau,
  Adgyfodir etto 'n fyw—
Hapus gwel'd yr had yn ffrwytho,
  Tra mae 'r llaw fu 'n hau yn wyw.

Trist yw gwel'd ei annedd breswyl,
  Siomiant yma wnaeth ei sedd,
Priod weddw wedi claddu 'r
  Byd yn gyfan yn y bedd:
Ffrydiau trallod sydd yn tori
  Rhychau dyfnion hyd ei grudd;
Mae ei chalon wan yn dabwrdd,
  Tan guriadau hiraeth prudd!

Dyma 'i ddarlun ar y pared—
  Y mae 'n ddarlun cywir iawn;
Dyma 'n gymmhwys ffurf ei wyneb—
  Dyma 'r talcen uchel, llawn;

Ah! nid Dr. Parry ydyw,
'Mae ei lygad bywiog mâd?
Mil rhagorach darlun iddo,
Geir ar bared adgo'r wlad!

Ar y llwybrau gynt a rodiai,
Mwyach ni ddaw ef i'm cwrdd;
Nid oes yma le 'n ei adwaen,
Yn dragywydd aeth i ffwrdd!
Dyma'r llyfrau a ddarllenai,
Ni rydd mwyach dro i'w plith;
Dyma'r llyfrgell fawr yn weddw,
Ac yn teimlo hebddo 'n chwith.

Dyma 'r Coleg, a'r Efrydwyr—
Nid yw Parry yma mwy!
Mae ei enwi 'n tynu mwythgroen
Angof oddi ar y clwy':
Gwell im' fyned oddi wrthynt,
Gan nad ydynt, bawb ac un,
Ond gwas'naethu 'n gareg atteb,
I fy nghŵynion i fy hun.

Gwisgo mae Cyfarfod Misol
Dwyrain Meirion fantell ddu—
Pawb yn edrych i'r gorphenol
Gan hiraethu am a fu:
Wedi cael ei fynych glwyfo,
Colli llaw a llygad de,
Dyma anaf newydd etto—
Colli braich, a hono 'n gre'!

Collodd Cymdeithasfa 'r Gogledd
  Un fu 'n llanw 'i huchaf swydd;
Mae 'r cyfundeb yn ei alar
  Am enwogion mawr ei lwydd:
Tristwch ddaeth ar dristwch iddo,
  Dwfn archollion na wellheir,
Aradr angeu 'n arddu 'r teimlad
  Briw yn gwysi hirion geir.

Gweled cylchoedd Dr. PARRY
  Yn brawychu 'm hysbryd sydd;
Gwâg o hono ydyw pob-man,
  Ond y nef, a'r fynwent brudd:
Breuddwyd teg, a phob dychymyg,
  Sydd yn rhoddi clwyf i'm hedd,
Gan nad ydynt yn y diwedd
  Ond fy arwain at y bedd!

Goleu rheswm yn y fynwent
  Sydd yn pallu dwyn im' hedd;
Lamp paganiaeth sy'n diffoddi
  Yn nhywyllwch mawr y bedd;
Cristionogaeth deifl ei llewyrch
  Ar y dyffryn tywyll, du—
Bywyd ac anllygredigaeth
  Ddygir i oleuni cu.

Try efengyl iachawdwriaeth
  Gysgod angeu 'n oleu ddydd,
Ac ni edy niwl na chaddug
  I ordoi y fynwent brudd:

Ac wrth hebrwng PARRY yno
  Gwelem haul addewid draw,
Fel yn estyn blaen y wawrddydd
  Dros fynyddau 'r byd a ddaw.

Fe ddymchwelir teyrnas angeu,
  Dryllir cedyrn farau'r bedd,
Gwisga 'r marwol anfarwoldeb,
  Ni bydd nychdod yn ei wedd!
Rhoddir gwŷs i fynwent YCIL,
  'Ildio ei thrysorau cudd—
SIMON LLWYD, a CHARLES, ac ereill,
  Gyda PARRY 'n codi fydd!

Mae ei wraig a'i blant tan ofal
  Un sy'n siwr o'u cadw 'n fyw;
Yn eu trallod cânt ymgynnal
  Ar alluog law eu DUW:
Mae efengyl hedd yn llwyddo,
  Gyda 'i baner wen ar daen—
Er fod Dr. PARRY 'n huno,
  Aiff yr achos yn ei flaen.

SEION, paid a rhoi *Ichabod*
  Etto ar y mur i lawr,
Yn y cyssegr sancteiddiolaf
  Erys y gogoniant mawr!
Os machludodd seren oleu
  A lewyrchai yn dy nen,
Y mae 'r HAUL ei hun yn aros
  Yn ei degwch uwch dy ben!

MORGAN RHYS.

# CYNNWYSIAD.

Tudal.

Marwnad gan y Parch. WILLIAM THOMAS (*Islwyn*), (*Awenydd Trist*) ... ... ... 9

Etto, gan y Parch. HUGH JONES, Llanrhaiadr-yn-Mochnant (*Onesimus*) ... ... 24

Etto, gan y Parch. EVAN DAVIES, Llangynog (*Morgan Rhys*) ... ... ... 55

---

**Nid ydyw yr ail gyfansoddiad uchod i'w ystyried fel yn rhagori ar y trydydd am ei fod yn ymddangos o'i flaen. Dygwyddodd hyn yn unig trwy ei fod yn gorwedd yn nesaf at y cyntaf yn y sypyn a dderbyniodd y cyhoeddwr.**

---

DINBYCH: ARGRAPHWYD GAN THOMAS GEE.

# LLYFRAU NEWYDDION CYHOEDDEDIG

## GAN T. GEE, DINBYCH.

---

*Cyhoeddir ddechreu Gorphenaf nesaf.*

**Twr Dafydd.** Gan y Parch. WILLIAM REES, D. D. Cynnwysa Arweiniad i mewn i Lyfr y Salmau. Aralleiriad Barddonol newydd o'r Salmau—y cwbl wedi eu gosod yn gyfochrog â'r rhai gwreiddiol, ynghyd â Nodiadau ar bob Salm. Yn dair rhan, 1*s.* yr un; mewn byrddau, 3*s.* 6*c.*

**Hanesiaeth a Gwyddoniaeth y Beibl.**—Yn WIR A CHYWIR. Gan y Parch. J. OGWEN JONES, B. A. Mewn byrddau, pris 2*s.* 6*c.*

**Y Cydfradwriaeth.** Rhamant yn egluro arferion presennol Cymru. Buddugol yn Eisteddfod Bangor, 1874. Gan y Parch. W. PRITCHARD, Pentraeth, Môn. Mewn llian, pris 1*s.*

**Y Gwyddoniadur Cymreig:** neu Gylch Gwybodaeth Gyffredinol. Dan olygiad y Parch. J. PARRY, Bala. Cynnwysa Gorph cyflawn o Wybodaeth Ysgrythyrol a Duwinyddol; Daearyddiaeth Ysgrythyrol; yr Anifeiliaid, yr Ehediaid, Pysg, Llysiau, &c., a enwir yn y Beibl; Hynafiaethau; Arferion a Defodau Dwyreiniol; Hanes Eglwysig; Hanes Enwadau a Chymdeithasau Crefyddol; Golwg gryno a chynnwysfawr ar agwedd Cristionogaeth trwy y Byd; Bywgraphyddiaeth Grefyddol; Crefyddau y Byd—eu hanes, eu daliadau, a phrif wrthddrychau eu haddoliad; a llawer o wybodaeth gyffredinol yn terfynu ar y materion hyn.

Cyhoeddir yn rhanau deufisol, 1*s.* yr un; yn hanner cyfrolau, 6*s.* 6*c.*; yn gyfrolau mewn byrddau, 14*s.*; hanner rhwym, 15*s.* 6*c.*; rhwymiad llawn, 17*s.* 6*c.* Y mae yr wythfed gyfrol allan o'r wasg. Cyhoeddir rhan 100, y bedwaredd o Cyf. IX., Gorphenaf 1af.

YN Y WASG.

**Beibl y Teulu.** Cynnwysa y testyn, cyfeiriadau ar ymyl y ddalen, ynghyd â Nodiadau Beirniadol, Eglurhaol, a Daearyddol, a Sylwadau Ymarferol, ac o ddeutu pedwar cant o Ddarluniau, a rhai Mapiau. Gan amryw o Weinidogion presennol Cymru, o bob enwad crefyddol. Pris y gyfrol mewn rhanau, 1p. 1s. 6c.; byrddau, 1p. 4s. 0c.; hanner rhwym, 1p. 7s. 0c.; llawn rwymiad, 1p. 10s. 0c. Cynnwysir mewn o 60 i tua 70 o ranau, pris 1s. yr un. Y mae y bedwaredd ran o'r ail gyfrol, sef Rhan 25, allan o'r wasg. Ar ddymuniad llawer o'r derbynwyr, dechreuir ar y drydedd gyfrol, sef y Testament Newydd, yn ddioed.

**Testament y Miloedd.** Y TESTAMENT NEWYDD, gyda Nodiadau Eglurhaol cryno a chynnwysfawr, a chyfeiriadau cyflawn. Cynnwysa hefyd Fapiau o Wlad Canaan ac Asia Leiaf. Ac yn ei ddiwedd bydd Geiriadur o enwau Lleoedd a Phersonau, &c. Gan y Parch. JOHN OGWEN JONES, B. A., Croesoswallt. Rhan 10 yn awr yn barod, pris 6*c.*

**Traethawd ar Grefydd Naturiol a Dadguddiedig:** yn cynnwys profion o ddwyfoldeb y Beibl, a'r grefydd Grist-

ionogol—hanes gau-grefyddau y byd—pa mor bell y llwyddodd y doethion Cenhedlig i ddwyn trefn ar y byd—golygiadau Socrates, Plato, Aristotle. Gan y Parch. W. REES, D.D. Cyhoeddir mewn 4 o ranau, 1s. yr un. Y mae y rhan gyntaf allan o'r wasg.

**Caniadau y Cyssegr a'r Teulu:** sef, Casgliad o Dônau, &c., hen a diweddar, gyda Geiriau Saesneg a Chymraeg. Gan amryw Gerddorion. Disgwylir na bydd ei bris dros 3*s.* yn yr hen Nodiant. Y mae Rhan 1, pris 1*s.*, yn barod.

Cyhoeddwyd Rhan 1 yn y Nodiant newydd hefyd, pris 6*ch.*

---

CYHOEDDWYD YN DDIWEDDAR.

**Testament yr Ysgol Sabbothol.**—Yn cynnwys y Cyfeiriadau Cyflawnaf; Nodiadau Beirniadol, Eglurhaol, a Daearyddol; Sylwadau ar Eiriau ac Arferion, &c., &c., ynghyd â Thraethawd yn egluro Amcan, Materion, ac Ieithwedd, &c., pob llyfr. Mae ei faintioli yn gymmhwys i'r llogell. Gan amryw o Weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd. Mewn 18 o ranau, 1s. Cyf. I. [*Matthew* hyd y *Rhufeiniaid*] mewn byrddau, 9s.; hanner rhwym, 10s. 6*ch.*; rhwym, 11s. 6*ch.*; gydag ymylau goreuredig, 14s. Cyf. II. [1 *Corinthiaid* hyd y *Dadguddiad*] mewn byrddau, 11s.; hanner rhwym, 12s. 6*ch.*; rhwym, 13s. 6*ch.*; gydag ymylau goreuredig, 15s.

Y mae y Cyhoeddwr wedi derbyn nifer fawr iawn o gymmeradwyaethau i'r llyfr hwn gan wahanol bersonau; ac yn eu mysg rai o Weinidogion enwocaf cyfundebau crefyddol y Dywysogaeth.

**Pregethau y diweddar Barch. John Jones, Tal-y-Sarn.** Dan olygiad y Parch. G. PARRY, Llanrwst. Y mae darlun o'r Awdwr yn y rhifyn diweddaf, ynghyd â Thraethawd Arweiniol gan y Parch. G. Parry. Mewn byrddau, pris 8*s.*

**Pregethau y diweddar Barch. William Morris,** Cilgeran. Dan olygiad y Parch. G. WILLIAMS, Tŷ Ddewi. Gyda Darlun o'r Awdwr, pris 6*s.* 6*c.* Mewn byrddau, pris 8*s.*

**Corph o Dduwinyddiaeth.** Gan G. CHRISTIAN KNAPP, D. D., Athraw duwinyddol yn Athrofa Halle. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Mewn 9 o ranau, pris 9*s.* 9*c.*; 11*s.* 6*c.* byrddau; 13*s.* 6*c.* hanner rhwym; 14*s.* 0*c.* rhwym.

**Gwaith Gurnal**, yn gyflawn mewn un gyfrol; sef, *Y Cristion mewn cyflawn Arfogaeth.* Cyfieithedig gan y diweddar Barch. T. JONES, o Ddinbych. Pris. 10*s.* yn rhanau; byrddau, 11*s.* 6*c.*; hanner rhwym, 13*s.* 0*c.*; rhwym, 14*s.* 0*c.*

**Hanes y Merthyron.** Argraphiad cyflawn o'r gwaith a ysgrifenwyd gan y diweddar Barch. THOMAS JONES, o Ddinbych. Y mae y llyfr hwn yn cynnwys Hanes yr Eglwys Babaidd hyd y dyddiau presennol. Pris 15*s.* yn rhanau; byrddau, 16*s.* 6*c.*; hanner rhwym, 18*s.* 6*c.*; rhwym, 20*s.* Un gyfrol.

Y mae y tri Gwaith uchod o'r un maintioli a llythyren.

**Llyfrau i Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid** Calfinaidd. *Llyfr y Dosbarth Cyntaf*, 1c. *Llyfr yr Ail Ddosbarth*, 2*g.*

**Deuddeg o Dafleni**, yn cynnwys gwersi *Llyfr y Dosbarth Cyntaf.*—Pris 1*s.* 6*c.*